SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

1pm – 4 Rhagfyr 2024
Ar-lein ar Microsoft Teams

AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford	Julie Perkins Dr Norma Barry
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau Y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol	James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth / Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd Anna Pretious – Rheolwr Amgylcheddol / Arbed Ynni Dewi Williams – Cyfrifydd Ariannol
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Wayne Jones – Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwyydd Personol i'r Prif Weithredwr Rebecca Jackson – Prentis Modern
ARALL YN BRESENNOL	
Fiona Roe – TIAA	Michelle Phoenix – Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		**Diben**	**Tudalen**	**Amser**	
1	**Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb**	Cadeirydd				
2	**Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf** Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 yn gywir.	Cadeirydd		3-17	5 mun	
3	**Cofnod Gweithrediadau**	Cadeirydd		18-29	5 mun	
	Eitemau Sefydlog					
4	**Diweddariad Sefydliadol**	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth	30-36	5 mun	

5	**Diweddariad AHEF – yn cynnwys Adolygiad PEEL**	Prif Arolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd	37-41	5 mun	
6	**Archwilio Mewnol** a. Archwilio Mewnol SICA 2024/25 a barn 2023/24 b. Adroddiad Rheolwyr yn cynnwys Barn Adroddiad Archwilio Mewnol	a. Archwilio Mewnol b. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb	Sicrwydd	42-51	10 mun	
7	**Diweddariad Risgiau** - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol - - Cofrestr Risg SCHTh	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Cyllid	Sicrwydd	52-57	10 mun	
8	**Rhaglen Waith 2024/25**	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad	58-64	5 mun	
	Eitemau Sefydlog					
9	**Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys**	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd	65-75	5 mun	
10	**Adroddiad Cyfreithiol**	Cyfreithiwr yr Heddlu	Gwybodaeth	76-95	5 mun	
11	**Diweddariad Llywodraethu – gan gynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol**	Prif Swyddog Cyllid	Gwybodaeth	96-99	5 mun	
12	**Sesiwn friffio** - **Sicrwydd Rheolwyr y Fflyd**		Sicrwydd	Cyflwyniad		
	Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)					
	DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 25 Mawrth 2025 29 Gorffennaf 2025 28 Hydref 2025 16 Rhagfyr 2025					

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Drwy Teams
25 Medi 2024 am 13:00

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford Julie Perkins Dr Norma Barry
SWYDDOGION YR HEDDLU:
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards, Pennaeth Cyllid Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Ariannol Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau Y Prif Arolygydd Simon Kneale, Gwasanaethau Corfforaethol (Eitem 1-5 yn unig) James Sutton, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes Patricia Strong, Pennaeth Caffael (Eitem 10 yn unig) Dewi Williams, Cyfrifydd Rheolwyr Kerrie Ambrose, Pennaeth Newid Corfforaethol
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:
Wayne Jones, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Stephen Hughes, Prif Weithredwr Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid Angharad Jones, Cynorthwyydd Gweithredol (cofnodion) Rebecca Jackson, Prentis Modern
POBL ERAILL YN BRESENNOL
Michelle Phoenix – Archwilio Cymru Jonathan Maddocks – Archwilio Mewnol

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Fiona Roe – Archwilio Mewnol, y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol.

Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.

2. COFNODION O'R CYFARFOD DIWETHAF

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2024 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Roedd un newid i'r frawddeg gyntaf o dan adran 10 i ddarllen "cynnwys Cynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2024".

COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg hefo'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 30/07/24 – 4, 7a, a 10.

4. **DIWEDDARIAD SEFYDLIADOL**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariadau o'r adroddiadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Rhoddwyd diweddariadau ar y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod Checkpoint yn wasanaeth wedi'i gomisiynu. Holodd a oedd y Cydbwyllgor Archwilio wedi derbyn adroddiad ynghylch gweithgarwch/prosesau comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Os nad oedd, gofynnodd papur diweddar a dderbyniwyd i bapur gael ei dderbyn mewn cyfarfod yn y dyfodol yn esbonio'r ystod o weithgarwch comisiynu a wneir gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i dull.

Nododd y Prif Weithredwr fod diweddariad wedi'i roi'n y gorffennol gan y Rheolwr Comisiynu a oedd wedi canolbwyntio ar y cyllid Strydoedd Diogelach a dderbyniwyd ond yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Nododd y Prif Weithredwr hefyd fod gwasanaethau comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi bod yn destun adolygiad archwilio mewnol yn ddiweddar lle cafwyd sicrwydd sylweddol am y trydydd tro mewn pum mlynedd.

Gweithrediad 4a	Y Prif Swyddog Cyllid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith comisiynu sy'n cael ei wneud yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2025/26.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor y byddai'n ddefnyddiol deall cylch gwaith y panel datrysiadau y Tu allan i'r Llys a'r Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol yn well. Holodd am rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn y sicrwydd a roddwyd gan y cyfarfodydd yn a holodd am fwy o wybodaeth.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod diweddariad ar waith y Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol yn cael ei roi i Banel yr Heddlu a Throsedd a bod gan y Panel aelodau sy'n bencampwyr ar y maes gwaith hwn. Yn hapus i roi'r un cyfarwyddyd ar lafar i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ag aelodau sy'n bencampwyr neu roi cyfarwyddyd ysgrifenedig ar gyfer y sesiwn gaeedig.

Nododd yr aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod y papur diweddaru hwn yn wahanol o ran cynnwys y diweddariadau a ddarparwyd yn flaenorol a gofynnodd a oedd hyn wedi'i sbarduno gan bryderon. Nodwyd ei bod yn ddefnyddiol cael mewnwelediad i lywodraethu ond holodd am yr hyn sy'n digwydd os nad ydych yn hapus hefo'r hyn a drafodwyd.

Cyfaddefodd y Prif Swyddog Gweithredol fod y papur hwn yn wahanol iawn gan nad oedd llawer o amser wedi mynd heibio ers i'r cyfarfod diwethaf fod eisiau egluro gwaith y pwyllgorau hyn. Pe bai unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn cael eu nodi, byddai'r materion hyn yn cael eu bwydo'n ôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a'u huwchgyfeirio i'r Bwrdd Gweithredol Strategol pe bai angen.

Bydd unrhyw bryderon sy'n codi o'r byrddau hyn yn y dyfodol yn cael eu hadrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Gweithrediad 4b	Y Prif Swyddog Gweithredol i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi o Fyrddau Craffu hefo'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

<u>Heddlu Gogledd Cymru</u>

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod y gwariant cyfalaf ar gyfer eleni wedi codi £800,000 o'r hyn a nodwyd yn y strategaeth gyfalaf. Holodd a oedd hyn oherwydd cynlluniau newydd neu agoriadau o flynyddoedd i ddod. Holodd a oedd y Strategaeth Ystadau wedi'i diweddaru wedi'i chreu fel ystadau yn ffactor mor arwyddocaol ar gyfer gwariant cyfalaf.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y gwaith adolygu yn y gyllideb a nodwyd yn yr adroddiad oherwydd llithro o'r flwyddyn ariannol flaenorol hefo ailwampio Caernarfon yn rhan sylweddol o hyn. Adroddwyd bod deiliaid y gyllideb yn cyfarfod er mwyn trafod y rhagolwg cyfalaf ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn ac adrodd wedi hynny.

Nodwyd hefyd fod y Strategaeth Ystadau yn ddogfen sy'n bodoli eisoes ond mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i'w hailystyried a'i hadnewyddu. Y gobaith ydy y bydd drafft yn cael ei greu erbyn diwedd mis Medi hefo'r bwriad o gwblhau erbyn diwedd mis Hydref ac yn hapus i ddod yn ôl i'r pwyllgor craffu ac adolygu.

Gweithrediad 4c	Y Prif Swyddog Cyllid i osod y Strategaeth Ystadau ar raglen waith i'r dyfodol 2025/26.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am yr arolwg mapio doniau a gynhaliwyd yn ddiweddar. Holodd a fydd y broses/allbynnau yn cael eu rhannu hefo aelodau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y bydd sensitifrwydd ynghylch yr allbynnau ond y bydd yn rhannu'r dull proses ac yn ystyried y ffordd orau o gyfleu cynnwys yr arolwg.

Gweithrediad 4d	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am rannu dull proses mapio doniau hefo aelodau ac ystyried y ffordd orau o gyfleu cynnwys yr arolwg.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor yr amserlen ar gyfer amnewid seilwaith llinellau copr a sut y bydd hyn yn effeithio ar yr amser ymateb 999.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod llawer o waith yn cael ei wneud ac mai'r llinell amser ddiweddaraf ar gyfer amnewid ydy mis Hydref. Dylai'r newid hwn wella'r amseroedd ymateb 999 i sawl eiliad.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd am ddatrysiad pensiwn McLoud ac a ydy hyn yn peri risg ariannol i Heddlu Gogledd Cymru.

DRAFT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad oes cost ariannol leol yn gysylltiedig â'r datrysiad ei hun fel y'i cwmpasir drwy drefniadau pensiwn cenedlaethol, ond mae cost dosbarthu a gweinyddu yn cynnwys rhai costau lleol. Mae'r goblygiadau ar gyfer cyfraniadau pensiwn cyflogwr wedi'u cynnwys yn y gyfradd gyffredinol ac ariannwyd y cynnydd yn y maes hwn yn ganolog. Rhaid talu rhywfaint o'r costau lleol o weinyddu a darparu'r gwaith sy'n gysylltiedig â McLoud yn lleol.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, oni bai bod y gost ychwanegol i'r Swyddfa Gartref yn cael ei hariannu gan Drysorlys EF, efallai y bydd cost gudd na fyddem yn gallu ei meintioli, gan y gallai llai o gyllid gael ei dderbyn o grant y llywodraeth yn y dyfodol.

5. DIWEDDARIAD HMICFRS A DILYNWR GWEITHREDIADAU

Nododd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur ar gasgliadau dros dro arolwg PEEL 2024 ac ar arolygon arfaethedig.

Disgwylir adroddiad drafft PEEL ar 30 Medi. Dyma'r olwg gyntaf y mae Heddlu Gogledd Cymru wedi'i chael ar y graddfeydd a roddwyd. Bydd gan yr heddlu 14 diwrnod er mwyn adolygu a herio/cytuno ar yr argymhellion. Bydd yr adroddiad terfynol yn debygol o gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr ond bydd o dan embargo hyd nes bod AHEF yn lledaenu'n gyhoeddus.

6. ARCHWILIO MEWNOL

a. ARCHWILIO MEWNOL SICA 24-25

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2024-25. Cafwyd diweddariad ar faterion perthnasol i Lywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol hyd at 4 Medi 2024.

Holodd y Cadeirydd pam fod yr archwiliad tîm cydweithredol wedi'i ganslo ac a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer pryd y bydd yr archwiliad hwn yn digwydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod yr archwiliad hwn wedi'i drafod yng nghyfarfod Cyllid y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd a'r farn oedd nad oedd y sefyllfa honno'n ddigon aeddfed ar gyfer archwiliad. Nid oes cynllun eto pryd y bydd hyn yn cael ei wneud ond bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn trafod ymhellach hefo cydweithwyr ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Gweithrediad 6a	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod amserlen debygol ar gyfer archwiliad cydweithredol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor ei bod yn ymddangos bod llithriad yn erbyn y cynllun blynyddol a gofynnwyd a oedd Archwilio Mewnol yn gyfforddus y byddai'r cynllun yn cael ei gwblhau.

Nododd Archwilio Mewnol eu bod yn hyderus y byddai'r cynllun yn cael ei gwblhau ond y byddent yn cael mwy o sicrwydd pan fydd yr archwiliadau TGCh wedi'u hamserlennu.

DRAFT

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio sut mae swyddogion yn sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei hamlygu i'r swyddogion hynny sydd angen gwybod. Holwyd am sicrwydd bod y swyddogion hyn yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen. Holwyd a oedd cofnod canolog sy'n nodi'r holl newidiadau deddfwriaethol a pharodrwydd y sefydliadau ar gyfer y newidiadau hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod gan yr Heddlu broses ar waith er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei derbyn gan Archwilwyr Mewnol yn cael ei dosbarthu i'r swyddogion sydd angen gwybod. Nodwyd bod hon yn broses sefydledig sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio. Mae gan bob adran brosesau mewn mannau er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei hymgorffori yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Adroddwyd hefyd nad oes cofnod canolog a fyddai'n rhedeg drwy'r bwrdd llywodraethu ond a fydd yn holi cyfreithiwr yr Heddlu ac yn adrodd yn ôl

Gweithrediad 6b	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i holi hefo Cyfreithiwr yr Heddlu os cedwir cofnod canolog lle nodir yr holl newidiadau deddfwriaethol newydd.

Nododd y Cadeirydd fod safonau archwilio mewnol yn newid o fis Ebrill 2025. Nododd fod yn rhaid i'r berthynas rhwng Archwilio Mewnol a'r Heddlu ddod yn fwy cadarn. Holodd a ellid rhoi sicrwydd i'r Cydbwyllgor y bydd yr Heddlu'n barod ar gyfer y newidiadau hyn.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y bydd papur yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol gan roi sicrwydd bod Heddlu Gogledd Cymru yn barod ar gyfer y newidiadau hyn.

Gweithrediad 6c	Mae papur sy'n rhoi sicrwydd bod Heddlu Gogledd Cymru yn barod i ychwanegu safonau archwilio mewnol newydd at y blaengynllun gwaith.

b. <u>TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL - ADRODDIAD RHEOLWYR</u>

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Adroddwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn hapus hefo'r cynnydd a wnaed o ran y cynllun archwilio. Mae'r archwiliadau TGCh yn aros am ddyddiadau, ond mae cynnydd yn cael ei wneud hefo fetio archwilwyr newydd am wydnwch.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod y llwyfan e-recriwtio yn nodi bod y sgematig ar gyfer llywodraethu gweithredol wedi dyddio. Holwyd a ydy hwn yn fater cenedlaethol neu a ydy hyn yn ymwneud yn benodol â HGC.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau mai'r cytundeb sgematig 22A sydd wedi dyddio. Eglurodd fod hwn yn gytundeb cyfreithiol sy'n clymu 4 heddlu Cymru. Mae tîm cyfreithiol Heddlu Gogledd Cymru wedi dosbarthu'r ddogfen i'r heddluoedd eraill, ac mae hwn yn fater sydd wedi codi o hyn.

7. **DIWEDDARIAD RISG**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg. Mae'r papur yn rhoi diweddariad i aelodau ar y broses risg sefydliadol a throsolwg o'r risgiau presennol a gofnodir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Nododd aelod o'r CA y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o fanylion am y cysylltiad rhwng trin risg a'i bod ar gau o fewn y crynodeb gweithredol. Mae hyn gan nad oes unrhyw fanylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae'n anodd deall y cysylltiad rhwng risgiau sy'n cael eu codi a'u cau heb unrhyw sicrwydd ynghylch sut y cyflawnwyd hyn.

Cytunodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y byddai crynodeb o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd er mwyn gostwng y risg at lefel y mae'r sefydliad yn hapus i'w dderbyn yn cael ei ddarparu o fewn papurau'r dyfodol.

Gweithrediad 7	Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i gynnwys crynodeb o'r camau sydd wedi digwydd ym mhapur Diweddaru Risg yn y dyfodol er mwyn gostwng y lefel risg i lefel dderbyniol.

8. **RHAGLEN WAITH 2024/25**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog Cyllid. Diweddarwyd y rhaglen waith drwy gydol y cyfarfod hefo sylwadau'r aelodau.

Holodd y Cadeirydd a fyddai modd symud ychydig o eitemau oedd i'w trafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr i gyfarfod mis Hydref gan fod agenda cyfarfod mis Rhagfyr yn ymddangos yn llawn iawn.

Gweithrediad 8a	Y Prif Swyddog Cyllid i adolygu'r rhaglen waith ac ystyried a ellid gosod unrhyw eitemau ar agenda cyfarfod mis Hydref.

Holodd y Cadeirydd a allai'r Cydbwyllgor weld y weithdrefn chwythu'r chwiban a chael mewnwelediad pellach ar sut yr ymdrinnir â hyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid i'w roi ar y blaengynllun gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau mai'r Pennaeth Safonau Proffesiynol fyddai orau i sicrhau cymaint o sicrwydd sydd ar gael.

Gweithrediad 8b	Y Prif Swyddog Cyllid i ychwanegu Chwythu'r Chwiban at y rhaglen waith yn y dyfodol a gofyn i Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol baratoi papur i'w drafod.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a ydy mis Gorffennaf 2025 yn optimistaidd ar gyfer llofnodi'r ISA 260. Holwyd a ydy cyfarfod ym mis Hydref hefyd wedi'i drefnu.

Cadarnhaodd Archwilio Cymru mai'r dyddiad cau ar gyfer llofnodi'r ISA260 ydy 31 Hydref ar gyfer 2025 ac mae'n annhebygol y bydd yn barod ar gyfer mis Gorffennaf 2025.

Gweithrediad 8c	Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddaru'r blaengynllun gwaith er mwyn dangos llofnodi'r ISA 260 ym mis Hydref 2025.

9. **PROFFILIAU GWERTH AM ARIAN HMICFRS**

DRAFT

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gynnwys y cyflwyniad gan Gyfrifydd Rheoli'r Heddlu ar Broffiliau Gwerth am Arian HMICFRS.

Cytunodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio hefo'r casgliadau. Y rhain oedd mai dim ond rhan o'r darlun ydy'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyflwyniad hwn. Mae angen ychwanegu gwybodaeth arall er mwyn rhoi darlun llawn a chyflawn ar werth am arian. Holwyd a oedd unrhyw beth yn sefyll allan o edrych ar y data hwn. Hynny ydy, ymchwiliadau yn dangos Heddlu Gogledd Cymru ar y gwaelod ar 32 a gofynnodd a oedd yr heddlu'n disgwyl hyn.

Dywedodd y Cyfrifydd Rheolwyr fod y data o flwyddyn i flwyddyn yn ymddangos yn eithaf cyson, a bod y data'n cael ei ddefnyddio ar y cyd hefo rhai eraill ac y bydd yn tyllu mewn er mwyn ychwanegu a chynorthwyo.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y newid o ran cyfrif y boblogaeth a sut y gallai hyn effeithio ar gyllid. Gofynnwyd hefyd a oedd y mater hwn yn cael ei ail godio ar y gofrestr risg ac os caiff ei gofnodi a fyddai'r mater hwn yn cael ei roi ar gofrestr risg yr Heddlu neu gofrestr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Dywedodd y Cyfrifydd Rheolwyr fod Heddlu Gogledd Cymru yn ymwybodol iawn o'r mater hwn a dywedodd fod y fformiwla ariannu yn amrywiol iawn. Dywedodd swyddogion fod hynny'n rhan o'r risg ariannol nad oes gan Heddlu Gogledd Cymru ddigon o adnoddau ond yn debygol o dynnu risg benodol ar fformiwla ariannu pan fydd hyn yn digwydd. Adroddwyd bod poblogaeth gogledd Cymru wedi cynyddu 6% ond bod rhai eraill wedi cynyddu 25% ac felly gallai hyn effeithio ar y fformiwla ariannu newydd. Ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid mai dim ond y grant sydd ar gael ymhlith Comisiynwyr y mae fformiwla ariannu yn ei ddosrannu. Nid yw'n adlewyrchu'r union swm o arian sydd ei angen ar bob ardal heddlu.

Cydnabuwyd bod angen i'r Heddlu ymwneud â'r fformiwla ariannu hefo'r llywodraeth newydd.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor am gost y swyddogaethau cymorth o ran rhywun llawn amser cyfatebol a holwyd lle mae'r adran gaffael o ran ffigurau a ddyfynnwyd ganddo.

Adroddodd y Cyfrifydd Rheolwyr fod yr Adran Gaffael wedi'i chynnwys o dan "arall" ac nid o dan Gyllid. Nodwyd hefyd nad ydy cost SCHTh wedi'i chynnwys o fewn y ffigurau hyn a bod hyn yn ffactor pwysig oherwydd mewn rhai meysydd mae mwy o waith yn cael ei wneud o fewn SCHTh. Rhaid cydnabod nad ydy'r ffigurau hyn bob amser yn debyg ar gyfer cymhariaeth debyg.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweld sut rydym yn triongli hyn a sut rydym yn cymryd gwerth am arian er mwyn gwneud yn siŵr bod Gogledd Cymru mor effeithlon ag y bo modd. Holwyd sut y caiff y wybodaeth hon ynghyd â phopeth arall ei gymryd er mwyn cymell camau ymlaen.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am weithredu er mwyn rhoi rhagor o fanylion i'r Cydbwyllgor ar sut mae'r wybodaeth hon yn cymell effeithlonrwydd o fewn y sefydliad.

Gweithrediad 9	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am roi manylion ynghylch sut mae'r wybodaeth a gedwir yn cael ei defnyddio er mwyn cymell effeithlonrwydd o fewn y sefydliad.

10. **CAMAU CAFFAEL 2023**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r trosolwg a roddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Caffael ar y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno y mae angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus eu mabwysiadu a pharatoad yr Heddlu mewn perthynas â'r newidiadau hyn.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor a fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn ychwanegu mwy o amser at y broses gaffael ac yn effeithio ar wariant cyfalaf. Holwyd a fydd yn cael effaith sylweddol.

Nododd y Pennaeth Caffael y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dylanwadu ar y broses gan y bydd yn cymryd mwy o amser wrth i fwy o hysbysiadau gael eu hystyried. Mae amserlenni ychwanegol wedi'u cyflwyno.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio'r sicrwydd da a roddwyd o ran paratoi'r Heddlu ond mae'n cwestiynu a fydd angen mwy o adnoddau

Nododd Pennaeth Caffael ei bod yn anodd dweud a oedd angen adnoddau pellach nes bod ymarfer caffael wedi digwydd o dan y ddeddfwriaeth newydd. Nodwyd y byddai'n rhy gynnar gweithredu rŵan a bydd yn rhaid adolygu ymhen 6 mis gan na fyddai cael mwy o adnoddau yn lleihau'r amserlenni.

Gweithrediad 10	Y Pennaeth Caffael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor Archwilio ymhen blwyddyn. Y Prif Swyddog Cyllid i roi diweddariad Caffael o ran y blaengynllun gwaith ym mis Medi 2025.

11. **DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

Holodd y Cadeirydd a ydy rhaglen waith y Bwrdd Llywodraethu yn cynnwys ymgynghoriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ym mis Rhagfyr a mis Ionawr.

Gweithrediad 11	Y Prif Swyddog Cyllid i hysbysu'r Cydbwyllgor os ydy ymgynghoriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Bwrdd Llywodraethu.

12. **UNRHYW FATER ARALL**

Cyfarfod CA mis Hydref – Llofnodi'r Cyfrifon

Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion a allai aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio gael cyfarfod preifat am 10 munud hefo Archwilio Cymru ar ddechrau cyfarfod mis Hydref.

Gweithrediad 12	Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys trafodaeth breifat rhwng aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru ar ddechrau'r agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref

.

DRAFT

Bydd cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio er mwyn llofnodi'r cyfrifon yn cael ei gynnal ar 31 Hydref 2024 drwy Teams. Bydd y Cydbwyllgor Archwilio nesaf ar 4 Rhagfyr 2024 am 1pm yn gyfarfod hybrid: yn y cnawd yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu ym Bae Colwyn a thros Microsoft Teams.

DRAFT

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

ar-lein drwy Teams
31 Hydref am 13:00

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:
Rachel Barber – Cadeirydd Norma Barry John Cunliffe Allan Rainford
SWYDDOGION YR HEDDLU:
Amanda Blakeman – Prif Gwnstabl Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Wendy Lloyd – Cyfrifydd Ariannol Anna Pretious – Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni Hayley Gallienne – Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:
Andrew Dunbobbin – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Wayne Jones – Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid Meinir Jones, Swyddog Gweithredol Angharad Jones – Cynorthwyydd Gweithredol (cofnodion) Rebecca Jackson – Prentis Modern
POBL ERAILL YN BRESENNOL
Steen Gourlay, TIAA Michelle Phoenix, Archwilio Cymru Robert Gore, Archwilio Cymru

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Julie Perkins, aelod o'r CA; y Prif Uwcharolygydd Simon Williams, Gwasanaethau Corfforaethol; Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol; Fiona Roe, Archwilio Mewnol.

Roedd y Cadeirydd wedi rhannu pwyntiau / cwestiynau a godwyd gan aelod o'r CA nad oedd yn gallu bod yn bresennol, cyn y cyfarfod. Byddai'r swyddogion yn trafod y rhain yn ystod y cyfarfod.

DRAFT

2. ISA 260 A LLOFNODI CYFRIFON

Amlygodd y Pennaeth Cyllid y broses a wnaed er mwyn drafftio'r cyfrifon ar gyfer 2023/24 gan egluro bod yn rhaid llofnodi'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd 2024. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn bodoli. Mae un camddatganiad heb ei gywiro wedi'i olygu cyn llofnodi'r cyfrifon.

Diolchodd Archwilio Cymru'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled yn ystod archwilio'r cyfrifon. Maent yn bwriadu cyhoeddi barn archwiliad ddiamwys ar gyfrifon grŵp y Comisiynydd a chyfrifon y Prif Gwnstabl unwaith mae'r llythyrau cyflwyniad wedi'u llofnodi wedi'u derbyn.

Gwnaeth aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ganmol y Tîm Cyllid am y set o gyfrifon rhagorol. Gwnaethant nodi fod timau eraill yn anelu at greu cyfrifon o'r un ansawdd â Heddlu Gogledd Cymru. Nodwyd bod un datganiad wedi'i gywiro ar gydnabyddiaeth ariannol swyddogion yn y cyfrifon diwethaf. Holwyd pam fod hyn yn ymddangos eto.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y camddatganiad hwn wedi digwydd oherwydd nad oedd y ffigyrau terfynol wedi'u derbyn pan oedd y cyfrifon wedi'u drafftio gyntaf.

Dywedodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio eu bod wedi sylwi yn y nodiadau briffio technegol bod rhai gweithrediadau penodol yn dal i fod heb eu gwneud. Holwyd sut y bydd y CA yn cael gwybod am gynnydd. Holwyd a fyddai rhoi dyddiad cau ar gyfer cwblhau yn cynorthwyo canolbwyntio ar weithredu. Holodd aelod o'r CA hefyd am yr ymarfer dysgu ôl-brosiect. Holwyd a fydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddwyn i sylw'r CA pan fydd wedi'i gwblhau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y cynllun gweithredu yn gweithio ei ffordd drwyddo hefo nifer o'r gweithrediadau sy'n bodoli hefo cysylltiad agos hefo'r broses gynllunio sefydliadol. Roedd y diweddariad a gafwyd yn yr adroddiad eglurhaol yn bapur a gyflwynwyd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Medi. Mae gwaith pellach wedi'i wneud ers hynny.

Nodwyd hefyd y byddai gosod llinellau amser ar gyfer cwblhau gweithrediadau'n sicrhau tryloywder i bawb. Nodwyd y bydd diweddariadau pellach yn cael eu rhoi i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Diolchodd aelodau'r CA a'r Cadeirydd i bawb am eu gwaith caled wrth gyflawni set o gyfrifon diamwys ac am gynnwys y Cydbwyllgor Archwilio yn y broses hon.

Penderfynodd y Cydbwyllgor Archwilio'r canlynol:

Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi adolygu Datganiadau Ariannol Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol o hynny ymlaen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cadarnhau nad oes materion heb eu datrys yn codi sydd angen eu hadrodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, cyn i'r Datganiadau Ariannol Blynyddol gael eu cymeradwyo.

NODER: Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl a phawb eraill lofnodi'r cyfrifon yn electronig tu allan i'r cyfarfod hwn.

DRAFT

3. **DIWEDDARIAD CYNALIADWYEDD**

Nododd aelodau o'r CA y trosolwg a'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd yn y papur ar gyflawniad cynaliadwyedd a datgarboneiddio Heddlu Gogledd Cymru ym mis Hydref 2024 a'r meysydd gwella/peri pryder a amlygwyd.

Nododd y Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni bod ailgylchu yn y gweithle wedi'i wneud yn unol â deddfwriaeth newydd ac mae hyn yn gweithio'n dda. Mae banciau dillad hefyd wedi'u gosod mewn pedwar lleoliad lle gellir ailgylchu eiddo a atafaelwyd a'r arian a grëir i PACT ar gyfer prosiectau cymunedol. Mae'r Heddlu hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o allu ennill arian o fetel sgrap ac ailgylchu plastig o'r ganolfan comisiynu cerbydau.

Gofynnodd aelod o'r CA pa reolaeth sydd gan y sefydliad ar yr allyriadau a gynhyrchir o fewn y gadwyn gyflenwi. Teimlwyd bod y sefydliad yn cael ei fesur o ran ond nad oes ganddo lawer o reolaeth drosto. Holwyd a ddylid gwahanu allyriadau'r gadwyn gyflenwi oddi wrth allyriadau'r Heddlu.

Nododd y Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni nad oes gan y sefydliad reolaeth dros y gadwyn gyflenwi dim ond lle mae'r arian yn cael ei wario. Mae'r sefydliad wedi rhannu'r data hwn i'r hyn y mae gennym fwy o reolaeth drosto, a dyma lle rydym yn rhoi sylw.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor am golli dŵr ac a ydy hyn yn cynyddu ein hôl troed carbon.

Nododd y Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni ei fod yn cael effaith ar y defnydd o garbon gan fod y prosesau a ddefnyddir er mwyn prosesu a'r pwysau a roddir ar y system ddŵr yn cael ôl troed carbon.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod cyllid Salix yn newyddion da iawn i'r sefydliad ac y bydd yn cynorthwyo sefydlu'r rhaglen datgarboneiddio tymor hir ar gyfer y sefydliad gan y bydd yn galluogi arbenigwyr ddod i mewn i'r sefydliad er mwyn cynghori. Dylai gynorthwyo datblygu'r maes hwn ochr yn ochr â gofynion busnes fel arfer.

Mae ariannu gwaith datgarboneiddio hefyd yn her. O'r 600 o gerbydau sydd gan y sefydliad, byddai'n wariant mawr iawn newid popeth i gerbydau trydan. Mae angen hefyd sicrhau bod y stad/fflyd a chynaliadwyedd i gyd yn cael eu cydgysylltu'n gywir o ystyried eu bod yn rhychwantu sawl maes gwaith.

Gofynnodd aelod o'r CA os ydy data'n cael ei ddefnyddio er mwyn cymell gostyngiadau. Nododd y Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni fod y buddsoddiad mewn goleuadau LED ar gefn y data fel newidiadau a wnaed i'r ardaloedd a nodwyd fel rhai sy'n defnyddio'r mwyaf o drydan.

Gofynnodd aelod o'r CA a oedd y sefydliad ar y trywydd iawn ar gyfer targedau 2030 a 2050. Nodwyd y byddai sawl ffactor yn penderfynu cyrraedd y targed hwn ond bod yr heddlu'n gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni drwy brynu cerbydau a'r defnydd cynyddol o baneli solar ac ati. Bydd arian Salix yn cael ei dderbyn os cwblheir y gwaith cychwynnol erbyn 31 Mawrth.

4. **DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN GYFALAF**

Gwnaeth aelodau'r Cydbwyllgor nodi cynnwys y cyflwyniad a rannwyd yn ystod y cyfarfod.

DRAFT

Nododd y Pennaeth Cyllid nad ydy'r gyllideb gyfalaf wedi'i gwario fel y gobeithir y flwyddyn ariannol hon hefo llithriad mawr yn digwydd o fewn y rhaglen gyfalaf a'i heffaith ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26. Tynnodd Pennaeth Cyllid sylw hefyd at nifer o brosiectau cyfalaf a oedd wedi'u cyflawni.

Gofynnodd y Cadeirydd beth fydd yn wahanol o fewn rhaglen gyfalaf y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau y bydd yr arian yn cael ei wario.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y maes hwn yn cael ei reoli'n fwy gweithredol a bod gwell dealltwriaeth ar lle mae prosiectau cyfalaf yn sefyll. Adroddwyd ei bod yn dal yn anodd ei gyflawni ar draws y fflyd/stad a thechnoleg. Mae elfen y fflyd yn gwella ar ôl yr anawsterau a brofir yn ystod/dilyn Covid ond mae'r gwariant yn parhau'n anodd ar draws y stad a thechnoleg.

Adroddwyd bod yr angen i ganolbwyntio dros y cyfnod tymor canolig yn lle'r flwyddyn bresennol yn cael ei gydnabod ond roedd y CCA yn hyderus bod y gyllideb bellach yn cael ei rheoli'n well.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod llithriad o 25% yn gyffredinol o fewn y rhaglenni cyfalaf llywodraeth leol a gall un prosiect mawr fod yn rhan fawr o'r llithriad hwn. Mae angen i ni sicrhau bod arian yn cael ei wario ond hefyd yn fforddiadwy ac yn cynnig gwerth am arian.

Dywedodd aelod o'r CA ei bod yn anodd rheoli'r rhaglen gyfalaf ond nododd fod 30% o'r gyllideb gyffredinol ar hyn o bryd wedi'i wario a gofynnwyd faint fydd yn cael ei wario erbyn diwedd mis Mawrth. Nodwyd hefyd, o edrych ar wariant 2026-31, nad yw'n ymddangos bod gwariant ar gyfalaf yn ystod y cyfnod hwn.

Nododd y Pennaeth Cyllid fod deiliaid y gyllideb wedi rhoi sicrwydd y byddai'r cyllidebau sy'n weddill yn cael eu gwario, ond mae risg hefyd y bydd llithriadau pellach yn seiliedig ar brofiad 6 mis cyntaf y flwyddyn. Bydd y Rhaglen o 2026/31 yn cael ei diweddaru fel rhan o'r broses gynllunio gyda'r Prosiect cyfredol ac unrhyw brosiect ychwanegol yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y cyfnod hwn.

Nododd aelod o'r CA fod swyddogion eisiau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn well a gofynnodd a oes siart Gantt o linellau amser ar gael neu a fyddai'n fuddiol creu un i gwmpasu'r rhaglen gyfalaf dros y 3-5 mlynedd nesaf. Byddai hyn o gymorth o ran rheoli ond byddai hefyd yn cynorthwyo aelodau'r CA ddeall y rhaglenni cyfalaf a'u rhyng-gysylltiadau a'u dibyniaethau yn weledol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad oes siart Gantt sy'n berthnasol ar hyn o bryd ar draws y bwrdd ond bod llawer o waith yn canolbwyntio ar gyflawni newid yn hytrach na darparu rhaglenni cyfalaf ac nid ydy hyn o reidrwydd yr un peth. Gallai felly fod yn ddefnyddiol sicrhau ein bod yn plethu hyn i'r strwythur llywodraethu a byddai'n ddefnyddiol gallu gwahaniaethu rhwng y ddau a chael golwg clir.

Gweithrediad 4a	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried creu siart Gantt er mwyn deall amserlenni / cyflawni rhaglenni cyfalaf yn well.

Nododd y Prif Gwnstabl, yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ar y gyllideb a'r arian a roddwyd i'r GIG o ran eu rhaglen gyfalaf, y bydd y cyhoeddiad hwn yn ychwanegu straen pellach mewn marchnad sydd eisoes yn anodd ac a fydd yn ei gwneud hi'n anoddach fyth cael partneriaid i ymgymryd â'r rhaglen adeiladu ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau i allu sicrhau adeiladwyr i wneud y gwaith cyfalaf hwn.

DRAFT

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor am y dyddiadau allweddol yn y broses hon wrth symud ymlaen ac a ydy dyddiadau cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio yn cyd-fynd â'r dyddiadau hyn. Gofynnodd y Cadeirydd i bapur briffio gael ei lunio yn tynnu sylw at ddyddiadau allweddol.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod gwaith yn mynd rhagddo wrth gynllunio'r gyllideb ond bydd yn rhaid ei gwblhau erbyn y Nadolig, hefo'r rhaglen gyfalaf wedi'i hysgrifennu ym mis Ionawr 2025. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei rhannu hefo'r CA cyn diwedd mis Mawrth i'w chraffu ond gellir rhannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefo aelodau ym mis Ionawr.

Gweithrediad 4b	Y Pennaeth Cyllid i greu papur briffio ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio hefo dyddiadau allweddol ar gyfer y broses o gynllunio'r gyllideb.
Gweithrediad 4c	Y Pennaeth Cyllid i rannu Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefo aelodau ar ôl eu cwblhau.

5. **DIWEDDARIAD ARGYMHELLION ARCHWILIAD SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gyflwyniad y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth ar archwiliad diweddar Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a safbwynt presennol yr Heddlu.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y risg data rhydd a holodd a ydy hyn wedi'i roi yn ôl ar gofrestr risg yr heddlu.

Dywedodd y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth bod cais am ragor o wybodaeth wedi'i gwneud a'i bod yn gobeithio rhoi'r eitem hon ar y gofrestr risg yng nghyfarfod nesaf yr Uwch Dîm Rheoli. Bydd data rhydd yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y llinellau amser ar gyfer y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth.

Nodwyd bod y strategaeth ddrafft wedi'i datblygu a derbyniwyd sylwadau gan y Bwrdd Addas i'r Dyfodol yn eu cyfarfod ym mis Medi. Bydd y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth yn adolygu ac yn diweddaru'r strategaeth ddrafft ac yn anelu at gyflwyno'r drafft diwygiedig i'r bwrdd ym mis Rhagfyr hefo unrhyw wersi a ddysgwyd gan archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a oedd yn werth cysylltu hefo chorff cyhoeddus arall h.y. Betsi Cadwaladr i ofyn a ydyn nhw wedi nodi a oes unrhyw hyfforddiant arbenigol ar gael ar sut i ymdrin â thorri data. Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i rannu enw unigolyn o fewn Betsi Cadwaladr hefo'r Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth.

Gweithrediad 5a	Aelod o'r CA i roi enw unigolyn sy'n gyfrifol am sicrwydd gwybodaeth o fewn Betsi Cadwaladr i Bennaeth Sicrwydd Gwybodaeth.

Nododd aelod o'r CA fod Risg 4 o archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei nodi fel un brys ond nid yw'n cael ei gwblhau tan ddiwedd 2025 ac yn cwestiynu a ydy hyn yn rhy hir.

Dywedodd y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth fod cymaint o waith ynghlwm â'r gwaith, ac edrychodd yr Heddlu a ddylent fod yn canolbwyntio ar y risg uchel hon yn unig. Ond penderfynwyd bod angen cwblhau gwaith arall hefyd ac felly wedi cyfuno tair risg hefo'i gilydd. Mae aelod o staff

DRAFT

wedi'i gymryd o'r holl ddyletswyddau eraill er mwyn canolbwyntio ar y gwaith hwn a fydd, gobeithio, yn golygu y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau'n gynharach.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ei fod yn credu bod yr Heddlu mewn sefyllfa dda ac fe'i sicrhawyd gan y gwiriadau ôl-weithredol nad ydym wedi cael gwybod amdanynt o dan unrhyw achosion o dorri. Wrth symud ymlaen bydd dogfen briffio yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfodydd caeedig y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol o dan unrhyw fater arall ar gynnydd gweithredu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rhagwelwyd y byddai hyn drwy rannu adroddiadau Sicrwydd Gwybodaeth Addas i'r Dyfodol.

Gweithrediad 5b	Y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth i roi papurau briffio diweddaru rheolaidd i'r Cydbwyllgor Archwilio caeedig o dan unrhyw fusnes arall gan ddefnyddio adroddiad Sicrwydd Gwybodaeth Addas i'r Dyfodol lle bo hynny'n bosibl.

15. **UNRHYW FATER ARALL**

i. <u>Dyddiad cyfarfod mis Hydref 2025</u>

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod dyddiad presennol cyfarfod mis Hydref 2025 yn dod o fewn wythnos hanner tymor a gofynnodd a ydy pawb yn hapus i ddyddiad arall ar gyfer y cyfarfod gael ei nodi yn yr wythnos flaenorol.

Cytunodd pawb ac mae'r Cynorthwyydd Gweithredol am nodi dyddiad addas amgen ar gyfer cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio mis Hydref 2025.

Gweithrediad 6i	Y Cynorthwyydd Gweithredol i nodi dyddiad addas amgen ar gyfer cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio mis Hydref.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 4 Rhagfyr 2024 am 1pm fel cyfarfod hybrid: yn y cnawd yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys Bae Colwyn a thros Microsoft Teams.

DRAFT

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU O 25/09/2024

	Ar agor
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
28/03/2023	8	**Diweddariad Risgiau** – Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu'r adroddiad ar yr adolygiad rheoli risg gydag aelodau tu allan i'r cyfarfod.	Ar unwaith	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	**28/06/23** Rhannwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Rheoli Risg i'w ymgymryd gan Gallagher Bassett hefo'r CA drwy eu Google Drive ar 07/03/23. Ers hynny, mae'r Heddlu wedi newid yswirwyr i Maven. Felly, ni fydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal bellach gan Gallagher Bassett. **28/09/2023** cytunwyd hefo Heddlu De Cymru cynnal yr Adolygiad Cymheiriaid ar 17 Tachwedd 2023. **18/10/23** Cafodd HGC wybod fod Rheolwr Risg HDC ar Salwch Tymor Hir felly cafodd yr adolygiad ei ohirio. **21/02/24** Adolygiadau Cymheiriaid ar draws bob Heddlu wedi cael ei godi gan Neil Ackers yn y Fforwm Rheoli Risg Cenedlaethol. Roedd consensws bod hwn yn syniad da ac mae Lee Milton, Rheolwr Cynllunio a Risg Strategol CCPSH wedi ei ddatblygu. Cafodd y cynnig canlynol ei gynnwys yn adroddiad Lee i Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu ar gyfer eu cyfarfod ar 20 Mawrth 2024. *"Fel rhan o drafodaethau rheoli risg ehangach drwy'r Fforwm, mae'r tîm SPP wedi cynnig hefyd asesu cefnogaeth am broses 'asesiad cymheiriaid'. Mae heddluoedd wedi nodi blwch mewn asesiad*

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					cymheiriaid sydd ar gael ar gyfer rheoli risg, a mantais bosibl rhwydwaith cymorth cymheiriaid er mwyn ymgymryd ag adolygu a sylfaenu ymdriniaeth plismona. 5.3.2. Yn dilyn cais gan Heddlu Gogledd Cymru, mae proses brawf wedi cael ei chynnig a bydd yn cael ei thrafod yn y Fforwm ym mis Mawrth. Bydd cylch gorchwyl yn cael ei ddrafftio a'i rannu er mwyn i heddluoedd gytuno arno cyn ymgymerir â'r gwaith. Mae'r Fforwm yn ymgysylltu hefo cydweithwyr asesiad cymheiriaid a'r Coleg Plismona er mwyn edrych ar gymorth cymesur a phriodol a ellir ei roi i gydweithwyr er mwyn i'r CCC gytuno." **19/06/24** Roedd Adolygiad Cymheiriaid yn eitem agenda yn Fforwm Rheoli Risg Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (CCPSH) ym Mhencadlys Heddlu Manceinion Fwyaf. Oherwydd nifer y ffrydiau gwaith parhaus, mae'r Fforwm wedi cytuno bwrw ymlaen hefo'r rhain yn nhrefn blaenoriaeth ac felly ni fydd Adolygiad Cymheiriaid Gogledd Cymru yn cael ei gynnal tan 2025. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau ar gytuno ar Gylch Gorchwyl ac yn cynnwys y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. 09/09/2024 – Argymell cau'r gweithrediad hyd nes y bydd cynnydd yng Ngwaith Adolygu Cymheiriaid yn genedlaethol yn 2025. 25/09/2024 – Awgrymodd y CA i'r gweithrediad hwn barhau fod ar agor. 15/11/2024 – Argymell bod yr eitem hon yn cael ei gosod ar y blaengynllun gwaith.
30/07/2024	4	**Diweddariad Sefydliadol** – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu adroddiad Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth ar y broses torri data personol hefo aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.	CYN GYNTED A PHOSIBL	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Y CCA i rannu cynnwys ICO perthnasol hefo'r CA drwy Google Drive. 25/09/2024 – Rhoi diweddariad ar gasgliadau'r ICO ar gynllun gwaith y CA. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
30/07/2024	6c	**Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr –** Y Swyddog Cyllidebau i ymchwilio pam nad oedd	Cyfarfod mis Medi	Swyddog Cyllidebau	15/08/24 – Cysylltodd FBO â Rheolwr y Fflyd. Mae'r oedi wrth ddiweddaru polisi oherwydd gallu. Mae wedi dechrau ar y gwaith ar y polisi, ond ni fydd yn cael ei gwblhau tan ddiwedd mis Medi.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		unrhyw eglurhad na rhesymeg glir ynghylch pam y gohiriwyd camau archwilio'r Rheoli Fflyd. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y CA.			Diweddariad i'w gynnwys yn adroddiad y CA mis Medi. 25/09/2024 – Gweithrediad i aros ar agor a'i roi ar y blaengynllun gwaith er mwyn i aelodau'r CA dderbyn rhagor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch y fflyd. 18/11/2024 – Ychwanegir cyfarwyddyd y Fflyd at y rhaglen waith ac agenda mis Rhagfyr 2024. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
30/07/2024	7b	**Diweddariad Risgiau** – Arweinydd Risg y CA i adolygu risgiau wedi'u golygu mewn cyfarfod dal i fyny nesaf hefo'r Heddlu.	Cyn cyfarfod mis Medi	Arweinydd Risg y CA a Swyddogion HGC	06/09/24 – Oherwydd nad ydy Arweinydd Risg y CA ar gael, cynhelir y cyfarfod hwn ar ôl iddo ddychwelyd. Fodd bynnag, rhoddir rhesymeg i bob Risg a Olygwyd pam y dylid rhestru'r risg mewn Sesiwn Gaeedig. Mae hyn wedi'i gofnodi ar y Templed Risg, er enghraifft, Risg 118 Amnewid Rheoli.  Yn ystod yr ymarfer Sgorio Risg, hysbysir yr Arweinydd Risg y bydd y risg naill ai'n cael ei gyflwyno yn Sesiynau Agored neu Gaeedig y CA. Mae'r Arweinydd Risg yn dewis pa un y maent yn teimlo sy'n briodol ac yn cadarnhau'r penderfyniad hwn mewn e-bost sy'n cael ei gadw yn y ddogfen Word sydd wedi'i gosod ar y risg. Fodd bynnag, bydd yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes yn cysylltu hefo pob Arweinydd Risg o'r risgiau hynny sy'n cael eu golygu ar gyfer Sesiwn Gaeedig. Mae hyn er mwyn adolygu eu penderfyniad cychwynnol a newid unrhyw rai y teimlant y gellir eu clywed mewn Sesiwn Agored. 08/11/24 – Mae negeseuon e-bost wedi cael eu hanfon ymlaen at yr holl Arweinwyr Risg Risgiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu golygu ar gyfer Sesiwn Gaeedig y CA er mwyn cadarnhau a oes angen iddynt barhau cael eu golygu. Bydd unrhyw Risgiau a adroddir yn ôl nad oes angen eu golygu mwyach yn cael eu symud i Sesiwn Agored. Bydd Arweinydd Risg y CA yn cael eu diweddaru ar 14/11/24 tra maent ym Mhencadlys yr Heddlu.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Awgrymu cau'r gweithrediad.
30/07/2024	11a	**Adroddiad Cyfreithiol** – Cyfreithiwr Heddlu i egluro pa hawliadau dyledion cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y categori "arall" a'u cynnwys yn y papur nesaf i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Rhagfyr	Cyfreithiwr yr Heddlu	Diweddariad i'w roi yng nghyfarfod mis Rhagfyr. 18/11/24 – Dadansoddiad o gategori "arall" wedi'i gynnwys yn adroddiad mis Rhag4. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
30/07/2024	11b	**Adroddiad Cyfreithiol** – Cyfreithiwr yr Heddlu i roi crynodeb rheolwyr yn tynnu sylw at bwyntiau o bwys ac unrhyw faterion a godwyd ar ddechrau papurau'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol a chysylltu hefo polisi.	Cyfarfod mis Rhagfyr	**Cyfreithiwr yr Heddlu**	Diweddariad i'w roi yng nghyfarfod mis Rhagfyr. 18/11/24 – Crynodeb rheolwyr wedi'i gynnwys ar ddechrau adroddiad mis Rhag24. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
30/07/2024	13	**Datganiad Strategaeth Risg a Chwant Risg - Adolygiad Blynyddol** – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes ac Arweinydd Risg a TG y CA i gyfarfod er mwyn ystyried parodrwydd risg o ran technoleg.	Cyn cyfarfod mis Medi	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes ac Arweinydd Risg a TG y CA	06/09/2024 – Cyfarfod wedi'i drefnu'n wreiddiol ar gyfer 30 Awst 2024 ond oherwydd nad oes aelodau o'r CA ar gael, mae'r cyfarfod wedi'i aildrefnu i 11 Medi 2024. 13/09/24: Cyfarfod i'w aildrefnu ar ôl cyfarfod y CA oherwydd diffyg argaeledd pawb sy'n dod. Mae CP y CCA yn y broses o edrych ar ddyddiadau addas. 25/09/2025 – cyfarfod i'w drefnu. 15/11/2025 – Cyfarfod wedi'i gynnal ar 6/11/24 a chytunwyd ar y ffordd ymlaen a argymhellwyd ac fe rannwyd hyn hefo pawb. 06/11/2024 – Diweddariad gan Y CCA – Cynhaliwyd y cyfarfod, a thrafodwyd y mater gan arwain at 3 cham: 1). Y Rheolwr Risg i ystyried ymgorffori geiriad drafft sy'n ehangu parhad busnes y tu hwnt i'r elfen dechnoleg. 2). Y Rheolwr Risg i ystyried ymgorffori geiriad drafft hefyd sy'n ehangu elfennau rheoli data parodrwydd risg y tu hwnt i'r elfen bresennol. 3). Y Pennaeth Technoleg a Phennaeth IA i ystyried a ddylid ymgorffori elfennau ychwanegol eraill at y parodrwydd risg ar gyfer eu priod feysydd fel rhan o'u hadolygiad strategaeth.
25/09/2024	4a	**Diweddariad Sefydliadol – SCHTh –** Y Prif Swyddog Cyllid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith comisiynu sy'n cael ei wneud yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2025/26.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – Sesiwn Friffio ar Wasanaethau a Gomisiynwyd wedi'i hychwanegu at y Rhaglen Gwaith. Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 29 Gorffennaf 2025. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
25/09/2024	4b	**Diweddariad Sefydliadol – SCHTh –** Y Prif Swyddog Gweithredol i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi o Fyrddau Craffu hefo'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.	Fel y bo'n briodol	Prif Swyddog Gweithredol	18/11/2024 – Nodwyd y cais, a bydd unrhyw bryderon yn cael eu codi yn ôl y gofyn. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	4c	**Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru –** Y Prif Swyddog Cyllid i osod y Strategaeth Ystadau ar raglen waith i'r dyfodol 2025/26.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – Ychwanegwyd Strategaeth Stadau at y Rhaglen Waith. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 25 Mawrth 2025. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	4d	**Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru –** Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am rannu dull proses mapio doniau hefo aelodau ac ystyried y ffordd orau o gyfleu cynnwys yr arolwg.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/2024 – Mae'r gwaith Mapio Doniau'n mynd rhagddo. Mae'r CCA yn rhagweld y gellid darparu diweddariad mwy ystyrlon yn y cyfarfod nesaf.
25/09/2024	6a	**Archwilio Mewnol SICA 2024-25 –** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod amserlen ar gyfer archwiliad cydweithredol ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/2024 – Cododd y CCA yr ymholiad yn y Cyfarfod Cyd Lywodraethu Cytunwyd y byddai'r archwiliad yn cael ei ychwanegu at y rhestr o archwiliadau cydweithredol posibl ar gyfer 2025/26 a'i ystyried yn ôl ei rinweddau o ran archwiliadau posibl eraill. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	6b	**Archwilio Mewnol SICA 2024-25 –** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i holi hefo Cyfreithiwr yr Heddlu os cedwir cofnod canolog lle nodir yr holl newidiadau deddfwriaethol newydd.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/2024 – Trafododd y CCA hefo Pennaeth yr Adran Gyfreithiol. Yn fyr, nid oes cofnod canolog yn bodoli. Fodd bynnag, mae prosesau ar waith er mwyn cadw i fyny hefo newidiadau: 1. Mae pob cyfreithiwr yn aelodau o Gymdeithas Cyfreithwyr yr Heddlu (rhwydwaith o gynghorwyr cyfreithiol mewnol) hefo staff yn eistedd ar is-bwyllgorau ar gyfer meysydd allweddol, cyflogaeth, gweithredol a chytundebau/caffael. 2. Mae rhannu gwybodaeth a rhwydweithio rheolaidd hefyd hefo Penaethiaid Cyfreithiol Cymru a Phenaethiaid Cyfreithiol y Gogledd Orllewin. 3. Mae cronfa ddata gyfreithiol sy'n cynorthwyo rhybuddion geiriau allweddol ar gyfer cyfraith achosion a deddfwriaeth newydd. 4. Mae'r tîm yn mynychu digwyddiadau hyfforddi gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr allanol lle rhoddir diweddariadau cyfreithiol. Trafododd y CCA hefyd hefo'r Pennaeth Dysgu. Unwaith eto, nid oes cofnod canolog ond mae rheoli fersiwn i'w gael ar ddogfennaeth sylfaenol er mwyn olrhain newidiadau. Mae'r Coleg Plismona yn

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					tynnu sylw at newidiadau sydd i ddod mewn deddfwriaeth fel rhan o'u diweddariadau. Mae'r prif hyfforddwyr hefyd yn cynnal 'craffu gorwelion' eu hunain ar gyfer eu maes cyfrifoldeb. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**.
25/09/2024	6c	**Archwilio Mewnol SICA 2024-25 –** Mae papur sy'n rhoi sicrwydd bod Heddlu Gogledd Cymru yn barod i ychwanegu safonau archwilio mewnol newydd at y blaengynllun gwaith.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/2024 – Ychwanegwyd at y blaengynllun gwaith. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd rhwng y CCA, y PSC a TIAA er mwyn trafod y newidiadau ar 13/11/24. Cytunwyd y byddai cyfarfod pellach yn werthfawr ym mis Rhagfyr wrth i ganllawiau CIPFA gael eu cyhoeddi. **Awgrymu cau'r gweithrediad (rheoli drwy raglen waith).**
25/09/2024	7	**Diweddariad Risgiau** – Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i gynnwys crynodeb o'r camau sydd wedi digwydd ym mhapur Diweddaru Risg yn y dyfodol er mwyn gostwng y lefel risg i lefel dderbyniol.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	15/11/2024 – Bydd y gweithrediad yn cael ei weithredu fel y bo'n briodol, ond oherwydd dim newidiadau yn y lefel risg, nid yw'n amlwg yn adroddiad risg CA mis Rhagfyr 2024. **Cynnig cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	8a	**Rhaglen Waith – 2024/25 –** Y Prif Swyddog Cyllid i adolygu'r rhaglen waith ac ystyried a ellid gosod unrhyw eitemau ar agenda cyfarfod mis Hydref.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – gofynnwyd i staff a swyddogion argymell eitemau a allai fod yn barod i'w cyflwyno i'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 31 Hydref 2024. Paratowyd agendâu ar gyfer y cyfarfod hwn a 4 Rhagfyr 2024 er mwyn ystyried hyn. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	8b	**Rhaglen Waith – 2024/25 –** Y Prif Swyddog Cyllid i ychwanegu Chwythu'r Chwiban at y rhaglen waith yn y dyfodol a gofyn i Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol baratoi papur i'w drafod.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – ychwanegwyd at y Rhaglen Waith. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 25 Mawrth 2025. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	8c	**Rhaglen Waith – 2024/25 –** Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddaru'r blaengynllun gwaith er mwyn dangos llofnodi'r ISA 260 ym mis Hydref 2025.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – ychwanegwyd at y Rhaglen Waith. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 25 Mawrth 2025. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	9	**Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS –** Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am roi manylion ynghylch sut mae'r wybodaeth a gedwir yn cael ei defnyddio er mwyn cymell effeithlonrwydd o fewn y sefydliad.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/2024 – Mae dadansoddiad HMICFRSVFM yn cael ei adrodd i sawl fforwm gan gynnwys y bwrdd Cyflawniad a'r broses cynllunio Sefydliadol. Defnyddiwyd y dadansoddiad er mwyn nodi meysydd gwariant uchel ac effeithlonrwydd posibl. Mae'n wybodaeth sy'n cyfeirio sylw yn hytrach na bod yn 'berthnasol i benderfyniad' ar gyfer gwneud effeithlonrwydd pwrpasol. Mae'r sefyllfa a fuddsoddwyd yn

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					dda ar gyfer gwasanaethau galluogi yn cael ei harchwilio'n flynyddol ar ôl hynny. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	10	**Gweithredu Caffael 2023 –** Y Pennaeth Caffael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor Archwilio ymhen blwyddyn. Y Prif Swyddog Cyllid i roi diweddariad Caffael o ran y blaengynllun gwaith ym mis Medi 2025.	Cyfarfod mis Medi 2025	Y Pennaeth Caffael a'r Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – ychwanegwyd at y Rhaglen Waith. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer mis Awst 2025. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	11	**Diweddariad Llywodraethu –** Y Prif Swyddog Cyllid i hysbysu'r Cydbwyllgor os ydy ymgynghoriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Bwrdd Llywodraethu.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	10/10/2024 – Ychwanegwyd ymgynghoriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol at raglen waith y Bwrdd Cyd Lywodraethu. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
25/09/2024	12	**Unrhyw Fater Arall –** Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys trafodaeth breifat rhwng aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru ar ddechrau'r agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref	Cyn cyfarfod mis Hydref	Prif Swyddog Cyllid	09/10/24 – Cyfarfod wedi'i drefnu cyn cyfarfod mis Hydref. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
31/10/2024	4a	**Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf** – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried creu siart Gantt er mwyn deall amserlenni / cyflawni rhaglenni cyfalaf yn well.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/2024 – Diweddariad gan y CCA – Mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal hefo'r Pennaeth Technoleg a Phennaeth Stadau ynglŷn â hyn. Mae gan y ddau eu barn gyffredinol eu hunain o'r rhaglen waith. Mae angen gwneud mwy o waith.
31/10/2024	4b	**Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf** – Y Pennaeth Cyllid i greu papur cyfarwyddyd ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio hefo dyddiadau allweddol ar gyfer y broses o gynllunio'r gyllideb.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Pennaeth Cyllid	15/11/2024 – Mehefin i Dachwedd 2024 Proses Cynllunio Sefydliadol:- 29.11.24 Cyfarfod Gosod Cyllideb hefo'r PG a'r tîm 13.12.24 Cyfarfod gosod cyllideb hefo'r PG a'r tîm 19.12.24 Dilyn hyn i fyny hefo'r CHTh ar ôl derbyn grant terfynol 6 i 17 Ionawr 2025 drafft Cynllun Ariannol y Tymor Canolig (gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf ddrafft) 27.1.24 Panel yr Heddlu a Throsedd i osod Praesept 25.3.25 Strategaeth Gyfalaf yn cael ei chraffu gan y CA (gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf derfynol)

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Awgrymu cau'r gweithrediad.
31/10/2024	4c	**Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf** Y Pennaeth Cyllid i rannu Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefo aelodau ar ôl eu cwblhau.	Cyn gynted â phosibl	Pennaeth Cyllid	15/11/2024 – Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig nesaf ar gael o'r 20.1.2025 hefo'r papurau PCP.
31/10/2024	5a	**Diweddariad Argymhellion Archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** - Aelod o'r CA i roi enw unigolyn sy'n gyfrifol am sicrwydd gwybodaeth o fewn Betsi Cadwaladr i Bennaeth Sicrwydd Gwybodaeth.	Ar unwaith	Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio	
31/10/2024	5b	**Diweddariad Argymhellion Archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** – Y Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth i roi papurau briffio diweddaru rheolaidd i'r Cydbwyllgor Archwilio caeedig o dan unrhyw fater arall gan ddefnyddio adroddiad Sicrwydd Gwybodaeth Addas i'r Dyfodol lle bo hynny'n bosibl.	Cyfarfod mis Rhagfyr	Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth	18/11/2024 – Diweddariad y CCA – Gweithrediad i'w symud ymlaen er bod y bwrdd Addas i'r Dyfodol yn disgyn ar ôl y CA y tro hwn.
31/10/2024	6i	**Unrhyw fater arall** – Y Cynorthwyydd Gweithredol i nodi dyddiad addas amgen ar gyfer cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2025.	Cyfarfod mis Rhagfyr	Cynorthwyydd Gweithredol	15/11/2025 – Symudwyd y cyfarfod i 24 Hydref 2025. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**

Gweithrediadau wedi cau ers y cyfarfod diwethaf - archifwyd ym mis Ebrill 2024 - caewyd yn flaenorol - ar gael ar gais

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
28/09/2023	13	**Briffio CA – Trefniadau llywodraethu ar y cyd** Y Pennaeth Newid Corfforaethol ac arweinydd TG y CA i drafod y meysydd cydweithredol mwyaf amlwg a'r risg uchaf mewn cyfarfodydd misol.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Pennaeth Newid a Chydweithredu ac Arweinydd TG CA	22/11/2023 – Rhestr o >100 ar y cyd y tu allan i faes gwaith Pennaeth Newid ac ni fyddai gan y cyfarfodydd digidol misol y capasiti i ymwneud ag agenda ehangach. Pennaeth Newid a Chydweithredu yn cydlynu rhestr o'r holl gydweithredu a dyddiadau adolygiadau llywodraeth a gynhaliwyd ac wedi eu cwblhau yn cael eu rhannu gyda CA i gael sicrwydd pellach. 07/12/2023 – Holodd aelod o'r CA o ran lle mae'r maes gwaith hwn yn cael ei lywodraethu o fewn yr Heddlu. Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod angen ymgymryd â gwaith ac mae'r Pennaeth Newid Corfforaethol yn llunio rhestr o gydweithrediadau a sut maent yn cael eu llywodraethu ar hyn o bryd. 06/03/2024 – Crëwyd cofrestr cydweithrediadau ac fe'i cadwyd ar Google Drive. Ar ben hyn, mae Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar gydweithredu ar hyn o bryd. 04/07/2024 – Mae Archwilio Mewnol wedi ymgymryd ag adolygiad ar y cyd a nodwyd sicrwydd sylweddol. Yn ogystal, mae'r argymhelliad yng nghanfyddiadau'r archwiliad yn y broses o gael ei weithredu. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
07/12/2023	4	**Diweddariad Sefydliadol –** Y Prif Swyddog Gweithredol i gylchredeg yr ateb i'r cwestiwn sydd ar ôl sy'n codi o'r diweddariad sefydliadol i aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod.	Ar unwaith	Y Prif Weithredwr	11/12/2023 – Rhoddwyd diweddariad i aelodau'r CA. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
28/03/2024	6a	**Archwilio Mewnol** – Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i anfon unrhyw sylwadau ar y rhaglen gwaith ymlaen at staff cyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cyn y cyfarfod nesaf	Cydbwyllgor Archwilio	Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
28/03/2024	7a	**Diweddariad Risgiau** – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i edrych ar Risg 81 a 119 yn fanylach a diweddaru'r Cydbwyllgor yng nghyfarfod mis Gorffennaf.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	**20/06/24 – Diweddariad gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes** Mae risgiau 81 a 119 bellach wedi'u diweddaru gan yr Arweinwyr Risg ac mae cais wedi'i wneud i Uwch Dîm Rheoli Cyllid ac Adnoddau awdurdodi cau risgiau a chael gwared ar Gofrestr Risg yr Heddlu. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
28/03/2024	7b	**Diweddariad Risg –** Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i ofyn i'r Arweinydd Risg ddiweddaru tabl 1 o fewn y ddogfen er mwyn sicrhau bod ffigyrau'n cael eu hadio'n gywir.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	14/06/24 Diweddariad gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes – Ymddiheuriadau, roedd hwn yn 'deipo' a fethwyd, a dylai'r ffigwr cywir fod wedi bod yn 26 risg HGC sydd ar hyn o bryd wedi'u cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ac nid 27 fel y nodwyd yn adroddiadau'r CA diwethaf. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**

28/03/2024	9	**Archwilio Cymru –** Y Prif Swyddog Cyllid i godi'r cwestiynau hefo Archwilio Cymru yn eu cyfarfod hefo nhw a gofyn am ymateb erbyn diwedd mis Ebrill.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Holwyd Archwilio Cymru a rhannwyd atebion hefo'r Cydbwyllgor Archwilio 02/05/2024. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
28/03/2024	10	**Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)** – Y Pennaeth Cyllid i rannu sleidiau a gyflwynwyd yn y cyfarfod hefo aelodau'r Cydbwyllgor.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	Rhannwyd hefo aelodau o'r CA 04/07/2024. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
30/07/2024	5	**Diweddariad a Dilynwr Gweithrediadau HMICFRS** – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddaru aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y gwersi a ddysgwyd o arolwg PEEL yn y cyfarfod nesaf.	Cyfarfod mis Tachwedd	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	09/09/24 – Mae'r heddlu'n annhebygol o allu rhannu unrhyw wersi PEEL a ddysgwyd nes iddynt dderbyn yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd. Bydd yr aelodau'n cael eu diweddaru unwaith y byddant yn derbyn yr adroddiad arolygu PEEL terfynol. **25/09/2024 – Awgrymodd y CA gau'r gweithrediad.**
30/07/2024	7a	**Diweddariad Risgiau** – Arweinydd Risg a Pharhad Busnes i holi a nodir GanBwyll yn risg ar holl gofrestrau risg heddluoedd Cymru yng nghyfarfod nesaf Cymru gyfan.	Cyfarfod mis Medi	Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	06/09/2024 – Gwnaed ymholiadau hefo heddluoedd eraill yng Nghymru fel y gofynnwyd a chafwyd yr ymatebion canlynol: Heddlu Dyfed Powys – Do Heddlu Gwent – Do Heddlu De Cymru – Cofnodwyd ar Gofrestr Materion. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**
30/07/2024	10	**Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys** – Cyfrifydd Rheoli Ariannol i roi dyfyniadau o dan y tablau er mwyn egluro'r data ymhellach.	Cyn gynted â phosibl	Cyfrifydd Rheoli Ariannol	13.09.24 – Disgrifiad wedi'i ychwanegu at gynorthwyo dehongliad y siart. Adroddiad wedi'i ddiweddaru wedi'i rannu hefo aelodau'r cydbwyllgor archwilio. **Awgrymu cau'r gweithrediad.**

Allwedd Talfyriadau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
HMICFRS	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Fawrhydi
CA	Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
SCHTH	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CHTH	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol

AW	Archwilio Cymru

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod:

Teitl:	Diweddariad Sefydliadol SCHTh
Awdur:	Stephen Hughes
Diben yr adroddiad:	Er mwyn diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ynglŷn â gweithgareddau allweddol SCHTh ers y cyfarfod diwethaf
Lefel Sicrwydd:	Uchel
Mae'r adroddiad yn cael ei ddarparu i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth ☐ Sicrwydd ✓ Gwybodaeth

Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	• Diweddariad ar gynnydd y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd
	  ○ Canlyniadau'r ymgynghoriad
	  ○ Blaenoriaethau a'i hawgrymwyd
	• Crynodeb o'r archwilio gyflawnwyd yn y Bwrdd Gweithredol Strategol
	• Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb
	• Wythnos Gweithredu Busnesau Mwy Diogel

Argymhellion:	Aelodau'r CA i nodi'r adroddiad
Effaith ar cofrestr risgiau:	Dim
Goblygiadau Sicrwydd:	Dim
Effaith cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES	**Cydbwyllgor Archwilio 4 Rhagfyr 2024** **Diweddariad Sefydliadol SCHTh**

Diweddariadau

Cynhaliwyd y cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio (CA) blaenorol ar 25 Medi 2024. Bydd yr adroddiad hwn yn darparu diweddariadau i'r CA ar faterion o bwys ers hynny, ac yna gyda canolbwynt penodol ar weithgareddau archwilio a gyflawnwyd gan SCHTh.

Cynllun Heddlu a Throsedd 2024-2028 – Diweddariad ar Gynnydd

Fel hysbyswyd eisoes i aelodau'r CA, mae'n ofynnol bod bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y rhai newydd eu hethol a'r rhai wedi'u hail-ethol) yn cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn eu hetholiad (31 Mawrth 2025).

Ym mis Gorffennaf 2024, dechreuodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) ymgynghoriad ac arolwg ar raddfa fawr. Prif amcanion yr arolwg hwn oedd:

1. Ymateb i bryderon cymunedau lleol a'u cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a strategaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru.
2. Sicrhau bod gan breswylwyr lais yn ffurfio gwasanaethau'r dyfodol a dosbarthu adnoddau.
3. Cynrychioli ac adlewyrchu barn pob adran o'r boblogaeth ym mlaenoriaethau'r heddlu a dulliau plismona.

'Roedd yr arolwg yn agored o 15 Gorffennaf hyd at 27 Medi 2024.

Fe dderbyniwyd **4,667** o ymatebion, sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol mewn ymgysylltiad o'i gymharu â'r ymgynghoriad ar gyfer Cynllun Heddlu a Throsedd 2021. 'Roedd y nifer o ymatebion wedi mwy na dyblu, gyda cynnydd o 104.6%. Yn arbennig, gwelodd ymatebion Cymraeg gynnydd sylweddol o 257.1%. Mae'r cynnydd yn y nifer o gyflwyniadau copi caled (o 7 yn 2021 i 566 yn 2024) hefyd yn awgrymu ymdrechion llwyddiannus i gyrraedd demograffeg sy'n llai tebygol o ymgysylltu ar-lein ac yn ystod digwyddiadau yn y cnawd.

Mae'r gwelliannau sylweddol hyn mewn graddfeydd ymgysylltu yn adlewyrchu effeithiolrwydd y strategaeth marchnata estynedig ac ymrwymiad SCHTh i gasglu mewnbwn cymunedol amrywiol ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Ar sail casgliadau'r ymgynghoriad a maniffesto etholiad y Comisiynydd, y blaenoriaethau a awgrymwyd yw:-

Sicrhau bod plismona cymdogaethau wrth wraidd blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru ydy'r sylfaen ar gyfer yr holl flaenoriaethau eraill. **Bregusrwydd ydy'r edau euraidd** drwy gydol y Cynllun, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Presenoldeb lleol plismona cymdogaethau

- Ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig
- Troseddau cefn gwlad
- Diogelwch y ffyrdd
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Cynorthwyo dioddefwyr, cymunedau a busnesau

- Trais yn erbyn merched a genethod
- Troseddau busnes a manwerthu
- Ymatebolrwydd
- Troseddau Seiber
- Troseddau Casineb

System cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol

- Troseddwyr Cam-drin Domestig
- Panel y Dioddefwyr – "cam 2"
- Cynllun Gwrth-Hiliaeth

'Rydym rŵan yn ymgynghori gyda'r Prif Gwnstabl a'n partneriaid statudol. Bydd drafft o'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd ar 16 Rhagfyr, cyn ei gwblhau a'i gyflwyno i'w gadarnhau'r ffurfiol yng nghyfarfod mis Ionawr y Panel, ochr yn ochr â'r cynnig praesept.

Archwilio cyflawniad Heddlu Gogledd Cymru

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol diweddaraf, a gafodd ei gadeirio gan y CHTh, fe roddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad ar gyflawniad Heddlu Gogledd Cymru mewn tri prif faes:

- Ymgyrch Soteria
- Cynllun Cyflawni Trais yn Erbyn Merched a Genethod
- Diogelwch y ffyrdd

Mae **Ymgyrch Soteria** yn rhaglen ymchwil a newid wedi'i fuddsoddi gan y Swyddfa Gartref, efo'r nod o gynyddu graddfeydd cyhuddiadau ac euogfarnau am dreisio a troseddau rhywiol difrifol. Fe glywodd y Comisiynydd sut mae'r Heddlu wedi gwneud cynnydd ynglŷn â'r Model Gweithredu Cenedlaethol, a'r dull chwe colofn. Y chwe colofn ydy:

- Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y rhai o dan amheuaeth
- Y rhai sydd o dan amheuaeth dro ar ôl tro
- Dull cyfiawnder gweithdrefnol tuag at ymgysylltu â dioddefwyr
- Datblygu dysgu a llesiant swyddogion a staff
- Data a chyflawniad
- Fforensig Digidol

Fe wnaeth y Comisiynydd hefyd archwilio cynnydd y Cynllun Cyflawni **Trais yn Erbyn Merched a Genethod** Heddlu Gogledd Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi mabwysiadu fframwaith sydd wedi'i hadnewyddu, sy'n ymgorffori model 4P. Mae'n amlinellu sut wnawn nhw warchod merched a genethod rhag trais; ymlid y rhai sy'n troseddu neu'n ceisio troseddu; atal troseddau rhag cael eu cyflawni; a pharatoi plismona ar gyfer gwelliant parhaus er mwyn diogelu merched a genethod yn ein cymunedau ledled Gogledd Cymru.

Yn drydydd, fe gynhaliodd y Comisiynydd adolygiad **Diogelwch y Ffyrdd**. 'Roedd y meysydd o dan sylw yn cynnwys data marwolaethau ac anafiadau difrifol, a deall y mathau o wrthdrawiadau angheuol, lleoliadau ac oedrannau gyrwyr. Fe edrychodd y Comisiynydd hefyd ar orfodaeth, gan gynnwys data ar orfodaeth troseddau, megis yfed neu gymryd cyffuriau a gyrru, goryrru a defnydd o ffonau symudol. Maes arall o dan sylw oedd sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb i'r mater o feiciau oddi ar y ffordd, beiciau a sgwteri trydanol, yn ogystal â'r defnydd o Gwylio Cyflymder Cymunedol.

Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

Fe gynhaliwyd Wythnos Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref, pan ddangosodd y CHTh ei ymrwymiad i drechu troseddau casineb drwy ymgysylltu efo cymunedau lleol sydd wedi'u heffeithio gan y materion hyn. Fe ymunodd â chyfarfod y Rhwydwaith Trawsrywiol Unigryw ym Mangor, lle trafododd effeithiau troseddau casineb LHDT+ ac archwilio sut gallai asiantaethau gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r her. Fe ymwelodd y CHTh hefyd â'r Ganolfan iCAN, a weithredir gan Gymdeithas Tai ClwydAlyn yn y Rhyl, lle wnaeth gyfarfod â'r tîm er mwyn dysgu am eu gwaith yn trechu digwyddiadau casineb, gan gynnwys y rhai sy'n targedu'r bobl digartref maen nhw'n eu cynorthwyo.

Wythnos Gweithredu Busnesau Mwy Diogel

Fe wnaethom hefyd gefnogi Wythnos Gweithredu Busnesau Mwy Diogel y Ganolfan Troseddau Busnes Cenedlaethol er mwyn trechu troseddau busnes, lle'r aeth y CHTh i'r Rhyl i ymweld ag Ashley Rogers, Prif Weithredwr Cyngor Busnes Gogledd Cymru, er mwyn trafod materion rhanbarthol a strategaethau atal ynglŷn â throseddau busnes.

Awdur yr Adroddiad:	**Stephen Hughes, Prif Weithredwr**

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Rhagfyr 2024

Teitl:	Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru
Awdur:	Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Diben yr adroddiad:	Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am brif ddigwyddiadau a materion sefydliadol sy'n digwydd ers cyfarfod diwethaf o'r CA.
Lefel Sicrwydd:	
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth X Sicrwydd X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod rhwng 05.09.24 a 11.11.24. Mae'r materion a'r digwyddiadau yn cael eu dadansoddi rhwng pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol. Mae'r adroddiad rhoi cipolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio ar yr ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn HGC. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod rhai materion pwysig y mae'r Pwyllgor Archwilio eisoes yn edrych arnynt yn parhau mynd rhagddynt. Nid oes angen unrhyw benderfyniadau nac ymatebion gan y cydbwyllgor o ran y cynnwys.
Argymhellion:	Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim.
Goblygiadau sicrwydd:	Dim.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim – Holl gynnwys yn y **Sesiwn Agored**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

4 Rhagfyr 2024

Diweddariad Sefydliadol

Adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod rhwng 05.09.24 a 11.11.24.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

2. Cyllid

2.1 Mae'r amcanestyniadau refeniw blwyddyn lawn wedi'u creu ddiwedd Ch2 hefo'r ffigyrau refeniw blwyddyn lawn yn amcanestyn tanwariant o £0.819m (0.4% o'r gyllideb), sydd ar y gyllideb yn sylweddol. Er gwaethaf hyn mae sawl amrywiad o ran y cynllun gwreiddiol sydd wedi'u hadrodd ac mae disgwyl cadarnhad ar sawl grant ychwanegol.

2.2 Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth am ddyfarniad cyflog o 4.75% i swyddogion heddlu ym mis Gorffennaf 2024, mae Cyngor Staff yr Heddlu bellach wedi cadarnhau y byddai dyfarniad cyflog o 4.75% yn cael ei ddyfarnu i staff yr heddlu. Mae'r dyfarniad cyflog yn cael ei ariannu'n rhannol ar gyfer HGC.

2.3 Ail-aseswyd ac ail-luniwyd y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 sef £18.913m yn dilyn dadansoddiad a oedd yn nodi na fydd 63% o brosiectau yn cael eu cyflawni o fewn FY24-25. Mae'r Rhaglen ddiwygiedig yn dangos gostyngiad sylweddol i £9.033m, hefo £9.880m yn cael ei symud i FY25-26. Mae'r rhesymau dros yr oedi yn amrywio ac wedi cael eu hadrodd i'r byrddau priodol. Y cam nesaf ydy ail-raddoli gwariant ar gyfer FY25-26 hyd at FY30-31. Roedd hwn yn faes sylw penodol yn y pwyllgor archwilio ychwanegol a gynhaliwyd ddiwedd mis Hydref.

2.4 Mae Cynllunio Sefydliadol ar gyfer cyllidebau 2025-26 ar y gweill, hefo Gosod y Gyllideb yn cael ei gynnal hefo'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 13 Rhagfyr 2024.

2.5 Yn dilyn yr adolygiad terfynol o'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer FY23-24 gan y Cydbwyllgor Archwilio ar 31 Hydref 2024, cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan Archwilio Cymru ar 7 Tachwedd 2024.

2.6 Gwnaeth cyllideb Hydref y Canghellor ar 30 Hydref 2024 sawl cyhoeddiad (fel y cynnydd i YG Cyflogwyr) a daeth â Chyfnod 1 yr Adolygiad Gwariant i ben. Mae'r rhain yn cael eu hystyried drwy'r broses gynllunio gan nad oedd llawer o fanylion penodol ar setliad yr heddlu yn benodol y tu hwnt i'r isod:

"… cynyddu grant craidd y llywodraeth ar gyfer heddluoedd a chynorthwyo lefelau plismona rheng flaen ledled y wlad, gan roi'r llywodraeth ar y trywydd iawn er mwyn dechrau gwireddu'r addewid maniffesto er mwyn hybu plismona cymdogaethau gweladwy hefo 13,000 yn fwy o

swyddogion cymdogaethau a Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH). Bydd hyn yn cael ei dalu drwy fynd i'r afael â gwastraff drwy effeithlonrwydd yr heddlu, gan alluogi swyddogion dreulio mwy o amser ar y rheng flaen yn mynd i'r afael â throsedd...".

3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

3.1 Mae'r Heddlu'n parhau bod ar y trywydd iawn er mwyn cyflawni ei darged cyfrifiad 2024-25 a hefyd cyflawni ei darged ymestyn dros dro ychwanegol. Cyflawnwyd targedau dros dro mis Medi 24 ac mae targed mis Mawrth ar y trywydd iawn.

3.2 Mae gwaith yn parhau ynghylch mapio doniau. Cynhaliwyd cyfres o weithdai hefo uwch reolwyr a rheolwyr canol ym mis Hydref, sef y cyntaf mewn cyfres o brosiectau a gynlluniwyd dros y misoedd nesaf. Cynhaliwyd cyfweliadau unigol hefyd hefo'r tîm prif swyddogion.

3.3 Mae swyddogion HGC a effeithiwyd gan Ddatrysiad Pensiwn McCloud yn parhau cael cymorth. Mae rhagor o wybodaeth a chymorth ar gael drwy'r tîm lleol, Canolfan Pensiynau Cymru Gyfan, Tîm Cenedlaethol CCPSH, ac XPS sef ein Gweinyddwr Pensiwn.

3.4 Mae'r Llywodraeth wedi gofyn am linell sylfaen Swyddogion Plismona Cymdogaethau a SCCH er mwyn cynorthwyo eu huchelgais i 13,000 o staff gael eu cyfeirio i'r ardal. Bydd Swyddogion Gwirfoddol hefyd yn ymddangos yn yr uchelgais hwn er eu bod ar y cyfrifiad isaf a welwyd ers cryn amser oherwydd sawl ffactor. Mae gwaith yn cael ei wneud ynglŷn â'r ffordd orau o ddenu, recriwtio a chadw ein gwirfoddolwyr.

3.5 Cyflwynwyd Medalau Coroni'r Brenin i swyddogion a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Bydd Darnau Arian Coroni'r Brenin ar gyfer staff yr heddlu hefyd yn cael eu dyfarnu dros yr wythnosau nesaf.

3.6 Mae gwaith yn parhau ar raglenni newid yr Heddlu, gan gael eu hadrodd drwy'r bwrdd Newid Strategol.

4. Gweithredol

4.1 Mae'r heddlu'n parhau'n amlwg yn y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Rhoddir yr uchafbwyntiau isod:

- Gostyngiad o 11.6% yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd (3ydd gostyngiad mwyaf yng Nghymru a Lloegr).
- 8fed gostyngiad mwyaf mewn troseddau Trais yn erbyn Unigolyn, hefo gostyngiadau i'w gweld ar draws Trais hefo a heb anaf a Stelcio ac Aflonyddu
- Gostyngiad blynyddol mewn Troseddau Rhywiol oedd yr 11eg mwyaf ledled Cymru a Lloegr
- 2il gyfradd isaf ar gyfer lladrad yng Nghymru a Lloegr.
- 2il gyfradd isaf ar gyfer troseddau cerbydau yng Nghymru a Lloegr.
- 8fed gyfradd isaf byrgleriaethau preswyl yn genedlaethol hefo gostyngiad gwell na'r cyfartaledd o flwyddyn i flwyddyn.

4.2 Yn dilyn arolwg PEEL (Effeithiolrwydd yr Heddlu, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb) HMICFRS, disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024.

4.3 Ar 7 Medi 2024, defnyddiwyd adnabod wynebau byw ar gyfer gêm bêl-droed CCPD Wrecsam a Thref Amwythig er mwyn adnabod y rhai y gallai fod yn eisiau am droseddau blaenoriaethol, adalwadau i'r carchar neu a allai fod yn gysylltiedig hefo anhrefn pêl-droed. Cafodd cyfanswm

o 34,900 o wynebau eu sganio, hefo 11 rhybudd yn cael eu creu ac ymholiadau dilynol gan swyddogion. Chafodd neb eu harestio.

4.4 Yn dilyn oedi cyn cyflwyno cerbydau gweithredol newydd oherwydd problem gyflenwi hefo cell y cerbyd ymateb, maent bellach yn cael eu cyflwyno yn nhrefn blaenoriaeth.

4.5 Dros gyfnod yr haf, gwelwyd gostyngiad mewn gwrthdrawiadau angheuol a gwrthdrawiadau hefo anafiadau difrifol yng Ngogledd Cymru. Gwelodd yr Heddlu ostyngiad hefyd mewn gwrthdrawiadau beiciau modur angheuol a difrifol.

4.6 Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb ym mis Hydref 2024. Er ein bod yn gweld lefelau isel o droseddau casineb yng Ngogledd Cymru, defnyddiwyd yr wythnos ymwybyddiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog gweithredu gan gymunedau, awdurdodau a sefydliadau cymorth o ystyried y gall gael effaith sylweddol ar y dioddefwr a'r gymuned ac yn aml nid yw'n cael ei hadrodd. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru gyfradd canlyniadau cadarnhaol uchel sef 22%.

4.7 Mae monitro cyflawniad ar lefel yr Heddlu a SCHTh yn parhau hefo diweddariadau cyflawniad allweddol gan y Bwrdd Gweithredu Strategol a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2024 yn cynnwys adroddiadau at wraidd y mater i feysydd Trais yn Erbyn Merched a Genethod (VAWG) a Diogelwch Ffyrdd.

5. Cyhoeddus / Cymunedol

5.1 Mae data a ddarparwyd ar gyfer y cyfnod Awst-Medi 2024 yn dangos bod Canolfan Reoli'r Heddlu wedi ateb 92% o alwadau 999 o fewn 10 eiliad. Atebwyd galwadau i'r rhif 101 mewn ychydig dros 1 munud. Mae'r ddau ganlyniad yn gadarnhaol.

5.2 Gwnaeth nifer o gydweithwyr a'r cyhoedd ddod i Ddiwrnod Agored yr Heddlu ar 14 Medi 2024 ac roedd yn gyfle i dynnu sylw cymunedau at y gwaith pwysig sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru, annog recriwtio i wasanaeth yr heddlu, yn ogystal â thynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu ein swyddogion a'n staff. Cynhaliodd yr heddlu sesiwn prynhawn hefyd ar gyfer aelodau o'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Swyddogion Heddlu wedi Ymddeol (NARPO) fel rhan o'i ddathliadau pen-blwydd yn 50 oed ar 13 Medi 2024.

5.3 Lansiwyd Ymgyrch Blizzard yn Ninas Wrecsam ar 1 Tachwedd 2024 gan ganolbwyntio'n benodol ar droseddau manwerthu yn y cyfnod cyn y Nadolig trwy fod yn fwy amlwg, hefo patrolau rhagweithiol o amgylch y ddinas a llecynnau, ar droed ac ar feiciau trydan.

6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Rhagfyr 2024

Teitl:	Adroddiad HMICFRS
Awdur:	Sarah O'Hara, Archwilio ac Arolygu
Diben yr adroddiad:	Rhoi diweddariad i aelodau'r pwyllgor ar gyhoeddi arolwg PEEL (Effeithiolrwydd yr Heddlu, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb) 2024 ac arolwg arfaethedig yn y dyfodol
Lefel Sicrwydd:	Uchel
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth ☑ Sicrwydd ☐ Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	• Mae'r adroddiad Arolygu HMICFRS PEEL drafft wedi'i adolygu a dychwelwyd gwiriadau cyn cyhoeddi i HMICFRS. Mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. • Mae rhaglen a fframwaith arolygu plismona arfaethedig HMICFRS 2025–29 wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori, sy'n cynnwys y newidiadau arfaethedig ar gyfer trefn arolygu PEEL 25-27. • Mae'r adroddiad sy'n dod â chasgliad canfyddiadau arolwg thematig Troseddau Mewnfudo Trefnedig yn dal i gael ei gyhoeddi. • Bydd yr adolygiad o'r cynnydd yn erbyn y meysydd ar gyfer gwella a nodwyd o'r arolygiad Troseddau Cyfundrefnol Difrifol yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2025.
Argymhellion:	Dim.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim.
Goblygiadau sicrwydd:	Dim.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad: 4 Rhagfyr 2024

Papur: Adroddiad HMICFRS

Awdur: Sarah O'Hara

1. Diben

Rhoi trosolwg i aelodau'r pwyllgor am diweddariad ar gyhoeddiad Rhoi trosolwg i aelodau'r pwyllgor o ganfyddiadau dros dro arolwg PEEL (Effeithiolrwydd yr Heddlu, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb) 2024 ac arolygiadau arfaethedig.

2. Arolygon PEEL

Derbyniodd yr heddlu gopi drafft o adroddiad archwiliad PEEL ar ddydd Llun 30 Medi. Yn dilyn adolygiad o'r cynnwys, paratôdd yr heddlu ei ymateb i'w gyflwyno yn y meysydd lle ystyrir golygu pellach neu adolygiad gan yr arolygiaeth. Mae HMICFRS wedi cadarnhau bod yr adroddiad nawr yn y cam terfynol yn dilyn adolygiad o'n gwiriadau cyn cyhoeddi a bod yr adroddiad yn barod ar gyfer ei gyhoeddi fis Rhagfyr 2024. Pan fydd yr heddlu yn derbyn fersiwn cyhoeddedig terfynol byddant yn rhoi trosolwg manwl a chanfyddiadau'r asesiad a'r dull arfaethedig o wella'r meysydd sydd angen eu gwella.

Yn ychwanegol, mae HMICFRS yn y broses o ail-gynllunio eu harchwiliad ar gyfer PEEL 25-27. Mae HMICFRS wedi cadarnhau bod yr adroddiad nawr yn y cam terfynol yn dilyn adolygiad o'n gwiriadau cyn cyhoeddi a bod yr adroddiad yn barod ar gyfer ei gyhoeddi fis Rhagfyr 2024. I grynhoi, y bwriad ar gyfer PEEL 25-27 yw symud i'r cwestiynau craidd isod:

1. Arweinyddiaeth
2. Cefnogi a datblygu'r gweithle
3. Triniaeth gyhoeddus
4. Atal ac ymyrraeth
5. Ymateb i'r cyhoedd
6. Ymchwilio Trosedd
7. Diogelu plant ac oedolion bregus
8. Twyll *(yn ddibynnol ar arian)*
9. Y Ddalfa

Mae HMICFRS yn cynnig symud y rhaglen archwilio'r ddalfa i fframwaith PEEL fel cwestiwn craidd ychwanegol (9). Bydd hyn yn cynyddu amlder archwiliadau'r ddalfa, gyda phob heddlu yn cael ei archwilio bob pedair blynedd.

Hefyd, mae disgwyl newid yn y modd y mae uniondeb data troseddau (CDI) yn cael ei archwilio a'i riportio, gyda samplau ar hap ar gyfer pob heddlu mewn cylch. Bydd CDI bellach ddim yn cael ei raddio, yn lle hynny gellir cynnwys tystiolaeth yn y cwestiwn craidd perthnasol.

Tra bod y cynnig ar gyfer tynnu cwestiwn ar reoli rhai o dan amheuaeth, y bwriad ydy y bydd rheoli rhai o dan amheuaeth yn symud i archwilio troseddau.

3. Ymgynghoriad Fframwaith Arolygu

Roedd y rhaglen archwilio a fframwaith arfaethedig 2025-29 ar agor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o Fedi i 25 Hydref 2024. Mae hyn yn cynnwys pob ardal archwilio, yn cynnwys y rhaglen archwiliad PEEL 25-27 a gyfeiriwyd ato uchod.

Ar amod cytundeb, y meysydd sydd i'w harchwilio dros y pedair blynedd nesaf yw:

- Trwyddedu Drylliau Tanio
- Arweinyddiaeth yr heddlu
- Ymateb yr heddlu i droseddau yn ymwneud â chyllyll
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau cyfredol sy'n darparu gwasanaethau heddlu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys trefniadau i gwrdd â Gofynion Plismona Strategol.
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Trosedd economaidd
- Plismona cudd
- Diogelwch seibr yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân
- Gwrthderfysgaeth
- Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys [JESIP]
- Data a Dadansoddeg

Ceir manylion pellach ar yr ymgynghoriad fframwaith llawn ar wefan HMICFRS yma: Rhaglen a Fframwaith Arolwg Plismona arfaethedig 2025-29: Ar gyfer ymgynghoriad - Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi

4. Gwybodaeth Archwilio Ychwanegol

Cafodd Heddlu Gogledd Cymru ei ddewis i gymryd rhan yn yr arolwg thematig i Droseddau Mewnfudo Trefnedig, a gynhaliwyd ym mis Mai yn gynharach eleni. Mae'r adroddiad ar fin cael ei gyhoeddi, ond nid oes dyddiadau wedi cael eu cyflwyno ac nid oes adroddiad drafft wedi cael ei dderbyn.

Mae disgwyl i Heddlu Gogledd Cymru adolygu'r cynnydd a wnaed tuag at y meysydd i'w gwella yn dilyn archwiliad i droseddau trefnedig difrifol. Mae HMICFRS wedi cadarnhau na fydd hyn yn digwydd tan ddechrau 2025. Mae'r heddlu'n hyderus y bydd y gwaith a wnaed hyd yma ac yn parhau yn bodloni'r arolygiaeth.

5. Argymhellion a meysydd i'w gwella



National Thematic Recommendations/AFIs in progress



Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

Tachwedd 2024

1.

Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad rheolaeth sicrwydd cryno hwn yn cynnig diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i Lywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol ac ar gynnydd ein gwaith yn Heddlu Gogledd Cymru hyd at 12 Tachwedd 2024.

Cod Ymarfer Archwilio Mewnol Newydd (Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang)

2. Y Cod Ymarfer Archwilio Mewnol newydd, sy'n nodi egwyddorion sylfaenol ar gyfer rhedeg swyddogaeth archwilio fewnol gref ac effeithiol. Am y tro cyntaf, mae'n cyflwyno Cod unedig sy'n cwmpasu'r gwasanaethau ariannol, y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae'r Cod yn adlewyrchu argymhellion terfynol y Pwyllgor Adolygu Cod Ymarfer Archwilio Mewnol Annibynnol ac mae wedi derbyn cymeradwyaeth lawn gan y Cyngor IIA Siartredig. Mae'r Safonau Byd-eang yn annog byrddau a Phwyllgorau Archwilio ar draws y sectorau ariannol, preifat a'r trydydd sector fabwysiadu a gweithredu egwyddorion y Cod, gan gychwyn ar eu llwybr at gydymffurfiaeth lawn. Bydd cofleidio'r egwyddorion hyn yn cynyddu gwerth archwilio mewnol a datgloi potensial llawn y proffesiwn.

Diben y Cod

Nod yr egwyddorion sy'n dilyn ydy gwella effaith ac effeithiolrwydd cyffredinol archwiliad mewnol o fewn sefydliadau sy'n gweithredu yn y DU ac Iwerddon. Fe'u hystyrir yn feincnod arfer da y dylai sefydliadau asesu eu gwaith archwilio mewnol yn ei erbyn.

Ar gyfer pwy y mae?

Mae'r gynulleidfa arfaethedig ar gyfer y Cod Ymarfer (y 'Cod') yn cynnwys aelodau pwyllgorau archwilio a risg bwrdd, prif weithredwyr archwilio, cyfarwyddwyr anweithredol, uwch reolwyr, a, lle bo'n briodol, cyrff rheoleiddio. Bwriedir i'r Cod gael ei gymhwyso gan bob sefydliad yn y gwasanaethau ariannol, y sector preifat a'r trydydd sector hefo gwaith archwilio mewnol a phwyllgor archwilio bwrdd cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol neu gyfwerth. Gall y Cod hwn fod yn ddefnyddiol ar gyfer archwiliad mewnol yn y sector cyhoeddus, ond nid yw'n cael ei ddrafftio hefo'r sector cyhoeddus yn benodol mewn golwg. Dylai gwaith archwilio mewnol y sector cyhoeddus barhau dilyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Sut y dylid ei ddefnyddio?

Dylid cymhwyso'r Cod ar y cyd â'r Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol a'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang. Mae'r Cod yn ychwanegu at y Safonau hyn ac yn ceisio cynyddu effaith ac effeithiolrwydd archwilio mewnol. Mae'r Cod yn seiliedig ar egwyddorion. Disgwylir i'r egwyddorion gael eu cymhwyso'n gymesur, yn unol â natur, cwmpas a chymhlethdod y sefydliad. Dylai gwaith archwilio mewnol gymhwyso'r Cod yng nghyd-destun safonau rheoleiddio archwilio mewnol sy'n berthnasol i'r sefydliad.

Gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad diwethaf SICA i'r Cydbwyllgor Archwilio

3. Mae'r tabl isod yn gosod manylion o'r archwiliadau sydd wedi eu cwblhau ers y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad blaenorol SICA

		Dyddiadau Allweddol			Niferoedd Argymhellion			
Adolygiad	**Gwerthusiad**	**Drafft wedi'i chyhoeddi**	**Ymatebion a Dderbyniwyd**	**Cyhoeddi drafft terfynol**	**1**	**2**	**3**	**OEM**
Grantiau'r Comisiynwyr	Sylweddol	4 Medi 2024	10 Medi 2024	16 Medi 2024	-	-	1	1
Cynllunio Parhad Busnes	Sylweddol	3 Medi 2024	10 Medi 2024	16 Medi 2024	-	-	3	-
Rhanbarth y Gorllewin – Uned Reoli	Rhesymol	18 Medi 2024	1 Hydref 2024	2 Hydref 2024	-	1	2	-
Rheoli Cyflawniad	Sylweddol	2 Hydref 2024	16 Hydref 2024	17 Hydref 2024	-	-	-	-
Rheoli Absenoldeb AD sy'n gysylltiedig hefo Ystwythder	Rhesymol	22 Hydref 2024	4 Tachwedd 2024	5 Tachwedd 2024	-	2	3	1
Pensiynau	Sylweddol	25 Hydref 2024	30 Hydref 2024	6 Tachwedd 2024	-	-	-	-
Cydweithredol - Rheolwyr Iechyd a Diogelwch	Sylweddol	3 Hydref 2024	5 Tachwedd 2024	7 Tachwedd 2024	-	-	1	-

Cynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2024/25

4. Mae ein cynnydd o ran Cynlluniau Blynyddol 2024/25 wedi'u nodi yn Atodiad A.

Newidiadau i Gynlluniau Blynyddol 2024/25

5. Mae un newid i'r cynllun cymeradwy wedi'i nodi yn y tabl isod. Mae archwiliad Sianeli Timau Cyswllt cydweithredol wedi cael eu canslo gan bob heddlu.

Cynnydd wrth weithredu argymhellion Brys (Blaenoriaeth 1)

6. Nid ydym wedi gwneud argymhellion Blaenoriaeth 1 (h.y. materion rheoli sylfaenol y dylid gweithredu arnynt ar unwaith) ers yr adroddiad SICA Blaenorol. Mae'r olrheinwyr argymhellion yn cael eu darparu ar gyfer y Cydbwyllgor.

Dangosyddion achosion gwraidd

7. Datblygwyd y dangosyddion gwraidd achos (RCI) gan TIAA i roi cyfeiriad treigl strategol ar gyfer asesiad llywodraethu, risg a rheolaeth teithio ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Caiff pob argymhelliad a wneir ei ddadansoddi i sefydlu achos sylfaenol y mater sy'n arwain at yr argymhelliad (RCI). Mae angen ystyried y dadansoddiad dros gyfnod parhaus, yn hytrach nag ar sail unigol bob chwarter. Mae canrannau, yn hytrach na nifer wirioneddol

yr adolygiadau/argymhellion a wneir yn caniatáu nodi'r cyfeiriad teithio yn fwy effeithiol. Mae saeth tuag i lawr yn arwydd o leihad cadarnhaol mewn risg mewn perthynas â'r RCI penodol.

DAG – Cyfeiriad Asesiad Teithio

Dangosyddion Achosion Gwraidd	Chwarter 2 (2023/24)	Ch 3 (2023/24)	Ch 4 (2023/24)	Chwarter 1 (2024/25)	Ch 2 (2024/25)	Cyfeiriad Teithio yn y Tymor Canolig	Arsylwad Archwiliad
Cyfarwyddwyd							
Fframwaith Llywodraethu	-	11% (1)	33% (3)	-	15% (2)	↑	
Lliniaru Risg	-	-	-	-	-	↔	
Cydsyniad Rheolaeth	-	78% (7)	56% (5)	-	85% (11)	1. ↑	
Cynllun Cyflawni							
Monitro Cyflawniad	-			-	-	↔	
Cynaliadwyedd	100% (1)			-	-	↔	
Gwytnwch	-		11% (1)	-	-	↔	

Twyll/Anghysondebau

8. Nid ydym wedi clywed am dwyll neu anghysondebau yn y cyfnod ers i'r adroddiad cryno diwethaf gael ei gyhoeddi.

Materion Eraill

9. Rydym wedi cyhoeddi nifer o nodiadau briffio a threuliau twyll, a ddangosir yn Atodiad B, ers adroddiad blaenorol SICA.

Cyfrifoldeb/Ymwrthodiad

10. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi'n unswydd ar gyfer defnydd y rheolwyr ac ni ddylid ei ddyfynnu neu gyfeirio ato yn llawn neu yn rhannol i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol. Nid ydy'r materion a godir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi cael ei baratoi, na'i fwriadu ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Nid ydy TIAA yn derbyn nac rhoi unrhyw ddyletswydd gofal i unrhyw barti eraill a fydd yn derbyn yr adroddiad hwn ac yn benodol yn ymwadu unrhyw gyfrifoldeb am golled, niwed neu wariant o unrhyw natur, sy'n cael ei achosi ar ddibynnu ar ein hadroddiad.

Appendix A: Progress against Annual Plan 2024-25

System	Planned Quarter	Current Status	Comments
Collaborative – Pan Wales			
Sustainability	1	Planned start date 10th December 2024	Lead Force – Gwent Police – moved to late Q3 at the request of Dyfed-Powys
Connect Teams Channels	2		Audit Cancelled by each force
Uniform Stores	2	Draft report issued 11th October 2024	Lead Force – Gwent Police – Final report delayed by Gwent Police
Health and Safety	2	Final report issued 8th November 2024	Lead Force – North Wales Police
Payroll	4	Planned start date 21st November 2024	Lead Force – Dyfed - Powys Police
North Wales Only			
Western Area – Command Unit	1	Final report issued 2nd October 2024	
Business Continuity Planning	1	Final report issued 16th September 2024	
Performance Management	2	Final report issued 17th October 2024	
ICT Infrastructure Review	2	TBC	
Commissioners Grants	2	Final report issued 16th September 2024	
Fleet Management – Repairs	2	Deferred to 2025-26	Moved to Q4 at the request of Management and now deferred to 2025-26 due to new system being implemented
ICT Data Assurance	2	Suggested start date 6th January 2025	
Risk Management – Mitigating Controls	2	Draft report issued 11th November 2024	
Cyber Security	3	TBC	

System	Planned Quarter	Current Status	Comments
Capital Programme – Project Management	3	Draft report issued 6th November 2024	
HR Absence Management linked to Agility	3	Final report issued 5th November 2024	Brought forward from Q2 at the request of Management
HR Management Strategy	3	Fieldwork completed	
Expenses and Additional Payment	3	Draft report issued 13th November 2024	
Treasury Management	3	Planned start date 10th December 2024	
Creditors	3	Fieldwork completed	
Anti-Fraud/Counter Fraud	3	Fieldwork completed	
Pensions	3	Final report issued 6th November 2024	
Property Subject to Charge (Evidential Property)	4	Planned start date 3rd February 2025	
Occupational Health Unit	4	Planned start date 17th December 2024	
ICT Network Security	4	TBC	
Follow-up (year-end)	4	Planned start date 12th February 2025	
Contingency	1-4		
Liaison with Audit Wales Management	1-4		
Annual Planning	1	Final Report Issued 9th July 2024	
Annual Report	4		
Audit Management	1-4		

KEY:

	To be commenced			Site work commenced			Draft report issued			Final report issued

Appendix B: Briefings on Developments in Governance, Risk and Cont

TIAA produce regular briefing notes to summarise new developments in Governance, Risk, Control, Counter Fraud and Security Management which may have an impact on our clients. These are shared with clients and made available through our Online Client Portal. A summary list of those briefings issued in the last three months which may be of relevance to North Wales Police is given below:

Summary of recent Client Briefings and Alerts

Date Issued	Sector	Briefing Type	Subject	Web Link	TIAA Comments
16 OCTOBER 2024	ALL	TIAA News	Give a Helping Hand Charity Team Building	Give a Helping Hand Charity Team Building - TIAA	Our Head Office staff recently took part in a team building event, organised by team tactics, which saw them building a number of prosthetic hands destined for individuals in developing countries.
11 OCTOBER 2024	ALL	Newsletter	Security Focus Newsletter Edition 8	Security Focus Newsletter Edition 8 - TIAA	Security and risk management is a key challenge for any organisation, this newsletter contains lots of useful advice and tips to help ensure a safe and secure environment for your staff and visitors. No organisation wants the disruption or bad publicity that incidents of violence and aggression against your staff or crimes against your property create.
07 OCTOBER 2024	ALL	Industry News	Protect Duty Update – (The Terrorism (Protection of Premises Bill)	Protect Duty Update - (The Terrorism (Protection of Premises Bill) - TIAA	An update and key points on the Terrorism (Protection of Premises) Bill.
01 OCTOBER 2024	ALL	TIAA Article	Celebrating Cyber Security Month: Protecting Our Digital World	Celebrating Cyber Security Month: Protecting Our Digital World - TIAA	As we step into Cyber Security Month, it's a perfect time to reflect on the importance of safeguarding our digital lives. In an era where technology is deeply intertwined with our daily activities, understanding and implementing robust cyber security measures is crucial. Find out about the importance of cyber security, getting the basics right and emerging trends.
26 SEPTEMBER 2024	ALL	Anti-Crime Alert	Mandate Fraud Alert	Mandate Fraud Alert - TIAA	A TIAA client has been targeted by fraudsters in an attempted mandate fraud. Read the full details in our alert.

Date Issued	Sector	Briefing Type	Subject	Web Link	TIAA Comments
16 SEPTEMBER 2024	Emergency Services	TIAA Article	Empowering Emergency Services with Comprehensive Business Assurance	Empowering Emergency Services with Comprehensive Business Assurance - TIAA	TIAA's assessment of the current risks in the Emergency Services Sector.
11 SEPTEMBER 2024	ALL	Briefing Note	Authorised Push Payment Scams	Authorised Push Payment Scams - TIAA	An implementation date of 7 October 2024 for Authorised Push Payment scam protection, is confirmed by the Payment Systems Regulator. Authorised Push Payment (APP) fraud is a significant issue and can have a devastating impact on victims. The PSR is taking a leading role in improving outcomes for consumers by introducing new protections for victims of APP scams, while incentivising industry to implement enhanced fraud prevention tools.
03 SEPTEMBER 2024	ALL	Video	TIAA's B Corp Story	TIAA's B Corp Story - TIAA	TIAA is proud to be a certified B Corporation (or B Corp), joining a growing movement of companies that are reinventing business for the benefit of all people and our shared planet. Watch our B Corp Story.

Appendix C: Updates to Global Internal Audit Standards

In January 2024, the Institute of Internal Auditors released the long-awaited changes to the industry's Standards that will have far-reaching impact on the year(s) ahead.

The standards will be adopted by 9th January 2025.

There are some significant changes that will provide internal audit functions with a refreshed framework and clearer requirements.

Key Innovations and Enhancements

Among the significant new requirements include:

- Establishment of an internal audit strategy.
- Heightened governance and oversight by the board and senior management.
- Enhanced reporting including ratings/rankings considerations.
- External quality assessments to be conducted by a team that includes at least one CIA.
- Technology considerations for the internal audit function's evolving needs.

Elevating the mandate and stature of Internal Audit

- Defining IA's purpose – business stakeholders should understand and be able to articulate the value of internal auditing and the mandate must be included in the internal audit charter.
- Separating independence and objectivity – Clear definitions
- Enhancing stakeholder coordination
- Building trust – Developing an approach to building relationships with key stakeholders and promote effective communication across all stakeholder groups

Maximising use of Technology

- Enabling technology as a key resource

- Using technology in audit operations – including audit planning, human and technology resource allocation
- Technology use in audit delivery – using technology to test more effectively and efficiently, for example using applications to test full populations instead of a sample (Increased costs)

Delivering more valuable results

- Promoting continuous improvement – responsible for measuring the performance of the IA function and ensuring it continuously improves
- Enhancing and elevating engagement level – A formal requirement of engagement reporting, including rating or ranking of audit findings, formulating recommendations, obtaining management's action plans and developing an engagement conclusion
- Performing external quality assessments (EQAs) – The board of directors must review EQA results, and the assessment team must include at least one individual with an active certified internal auditor (CIA) designation

Structure of standards into 5 domains containing principles and standards. The key domain for Audit Committee members is Domain 3.

Domain 1 – Purposes of internal auditing and adding value
Domain 2 - Ethics and professionalism -behavioural expectations.
Domain 3 – Governing the IA Function (Relationship between IA and Board (Committee) and responsibilities)
Domain 4 – Managing the IA function
Domain 5 – Performing IA services – expectation on engagement

Topical Requirements - such as Cyber / Fraud and ESG will have updated standards against which TIAA must audit those topics when they come into the audit plans.

Useful Resource:

Title	
Audit Committee Presentation (IIA-UK)	
Audit Committee Check List (IIA-UK)	
IIA-UK Fact Sheet	

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Rhagfyr 2024

Teitl:	Adroddiad Rheoli Risg – (Sesiwn Agored)
Awdur:	Neil T. Ackers, Arweinydd Risg a Pharhad Busnes
Diben yr adroddiad:	Rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y broses risg sefydliadol a throsolwg o'r risgiau presennol a gofnodir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
Lefel Sicrwydd:	PARHAOL
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: **(ticiwch un)**	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth ✓ Sicrwydd ☐ Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	• Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu'n fisol gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes, gan sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru ac yn parhau ar darged. Gwneir cofnod dyddiedig ar y cyd a'r adolygiad o fewn 'dogfen wybodaeth ategol' y cofnod risg gosodedig. • Anfonwyd negeseuon atgoffa at Arweinwyr Risg i adolygu a diweddaru eu risgiau a'u gweithredoedd parhaus naill ai'n fisol neu'n chwarterol (yn dibynnu ar y math o risg). • Ers y diweddariad blaenorol, mae bob risg ar Gofrestr Risg yr Heddlu wedi'u hadolygu yn y cyfarfodydd canlynol gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi. • Cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli • Bwrdd Rheoli Strategol • Bwrdd Gweithredol Strategol • Bwrdd Cyflawni Gwasanaeth Gwych • Bwrdd Addas i'r Dyfodol • Bwrdd Pobl Strategol • Bwrdd Newid a Chydweithredu Strategol • Bwrdd Technoleg • Bwrdd Sicrwydd • OAr 3 Rhagfyr 2024, ymddeolodd Neil T. Ackers , Arweinydd Risg a Pharhad Busnes o Heddlu Gogledd Cymru ar ôl ymuno hefo'r sefydliad yn 1985. Mae Neil wedi bod yn y rôl hon ers mis Ebrill 2021 ac yn cael ei olynu gan Roger Punnett. • Roedd yr Heddlu'n falch o dderbyn Gradd Archwiliad **Sylweddol** gan TIAA ein Harchwilydd Mewnol ar gyfer 'Adolygiad Sicrwydd Rheoli Risg – Lliniaru Rheolaethau' a gynhaliwyd ym mis Medi 2024.
Argymhellion:	Dim
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar fanylion a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu.

Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i ddatblygu sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Do (amlygwyd mewn melyn)

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn ydy cynnig diweddariad ar broses rheoli risg sefydliadol gan roi trosolwg o statws risgiau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ac a gofnodwyd erbyn 12 Tachwedd 2024 ar Gofrestr Risg yr Heddlu fersiwn 8.11.

Mae risgiau prosiectau yn cael eu rheoli ar wahân o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolios. Fodd bynnag mae'r rhai hynny sydd angen sylw'r Heddlu yn cael eu rhoi ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu drwy'r broses a gytunir a ddogfennir yn y Fframwaith Mapio Risg a Sicrwydd f1.11.

2. CRYNODEB COFRESTR RISG YR HEDDLU

Rydym yn parhau gosod ein hymdriniaeth at Reoli Risg ledled y sefydliad drwy ryngweithio rheolaidd hefo'r Arweinwyr/Perchnogion Risg yn dibynnu ar y math o risg.

Mae nodiadau atgoffa wedi'u hanfon at yr unigolion er mwyn adolygu a diweddaru gweithrediadau parhaus er mwyn sicrhau bod risg yn parhau i gyrraedd y targed.

Ar ben hyn, rydym yn parhau i gynnal adolygiad misol o bob risg ac wedi codi unrhyw bryderon neu broblemau gydag Arweinwyr Risg ac Uwch Dimau Rheoli drwy eu hadroddiadau prif faterion risg. Uwch Dimau Rheoli Drwy eu hadroddiadau prif bwyntiau risg. Mae risgiau hefyd wedi cael eu riportio a'u hadolygu yng Nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh), Bwrdd Rheoli Strategol (SMB), Bwrdd Gweithredu Strategol (SEB), Bwrdd Cyflawni Gwasanaeth Gwych, Bwrdd Addas i'r Dyfodol, Bwrdd Pobl Strategol (SPB), Bwrdd Newid a Chydweithrediad Strategol (SCCB) a'r Bwrdd Technoleg gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi.

Adroddir crynodeb o'r holl risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu i'r Bwrdd Sicrwydd hefyd.

Tabl 1: - Risgiau HGC ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 2 Medi 2024 – 12 Tachwedd 2024

Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau	Cyfanswm Blaenorol Risg HGC	Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn	Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn	Risgiau HGC a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu
Difrifol	10	0	0	10
Uchel	15	0	0	15
Canolig	1	0	0	1
Cyfanswm	26	0	0	26

Tabl 2: - Risgiau HGC ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 2 Medi 2024 – 12 Tachwedd 2024

Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau	Cyfanswm Blaenorol Risg SCHTh	Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn	Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn newydd yn y cyfnod hwn	Risgiau SCHTh a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu
Difrifol	**1**	**0**	**0**	**1**
Uchel	**0**	**0**	**0**	**0**
Canolig	**0**	**0**	**0**	**0**
Cyfanswm	**1**	**0**	**0**	**1**

3. RISGIAU NEWYDD HGC A GOFNODWYD AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.
Nid oes risgiau newydd gan HGC wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

4. RISGIAU NEWYDD SCHTH A GOFNODWYD AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.
Nid oes risgiau newydd gan y SCHTh wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

5. RISGIAU HGC A DYNNWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF
Nid oes unrhyw risgiau wedi cau nac wedi'u tynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

6. RISGIAU SCHTH A DYNNWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.
Ni chaewyd na thynnwyd risgiau SCHTh o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

7. NEWIDIADAU I'R RISGIAU HGC AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF
Nid ydy unrhyw risg HGC byw wedi newid eu Lefelau Risg Presennol ers yr adroddiad diwethaf.

8. **SCHTH NEWIDIADAU I'R RISGIAU AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF**
Nid oes risg SCHTh Byw wedi newid eu Lefel Risg Presennol ers yr adroddiad diwethaf.

9. GWEITHREDIADAU COFRESTR RISGIAU'R HEDDLU

- **Graddau RAG Gweithrediadau Risg – HGC**

Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau
0	9	58	80

- **Graddau RAG Gweithrediadau Risg – SCHTh**

Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau
0	0	2	2

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda *'Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau'* yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynnydd.

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda *'Gweithrediadau Ddim ar y Gweill'* yn berthnasol i Weithrediadau hwyr ac yn disgwyl diweddariadau gan Arweinwyr Risg.

10. DATBLYGIADAU O RAN RHEOLI RISGIAU

Ar 3 Rhagfyr 2024, ymddeolodd Neil T. Ackers, Arweinydd Risg a Pharhad Busnes o Heddlu Gogledd Cymru ar ôl ymuno hefo'r sefydliad yn 1985. Mae Neil wedi bod yn y rôl hon ers mis Ebrill 2021 ac yn cael ei olynu gan Roger Punnett.

Roedd yr Heddlu'n falch o dderbyn Gradd Archwiliad **Sylweddol** Gan TIAA ein Harchwilydd Mewnol ar gyfer 'Adolygiad Sicrwydd Rheoli Risg – Lliniaru Rheolaethau' a gynhaliwyd ym mis Medi 2024. Y ddau risg a ddewiswyd ar gyfer archwiliad oedd:

- Risg 60 – Bygythiadau Diogelwch Seiber
- Risg 118 – Amnewid Rheoli

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

11. CRYNODEB AM RISGIAU HGC AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 12/11/2024

URN	Teitl y Risg	Lefelau'r Risg			Math o Risg	Dyddiad y Risg a Godwyd	Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	Cynnydd Gweithrediadau Risg				
		Cyn Rheolaethau	Yn bresennol	Targed				Gweithrediadau Neilltuol	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau	Ar y Gweill	Ar y trywydd iawn ond gyda Phroblemau	Dim ar y Gweill
003	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Isel	Datganiad llywodraethu 2020-2021	10/08/16	10/07/24	1	1	1		
054	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Isel	Dynamig	29/04/20	09/10/24	1	2	1		
060	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	Canolig	Sefydlog	19/05/20	06/11/24	3	3	3		
071	Pensiynau	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	20/01/21	01/03/24	2	3	2		
074	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Canolig	Canolig	Dynamig	04/06/21	12/09/24	1	14	1		
088	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Isel	Dynamig	01/02/22	07/10/24	4	3	4		
091	Colli arian a fuddsoddwyd ar y farchnad arian	Difrifol	Isel	Isel	Sefydlog	16/02/22	10/09/24	2	2	2		
093	Adnoddau ariannol annigonol i gyflawni cynlluniau gwasanaeth am y cyfnod 01/04/2024 tan 31/3/2029	Difrifol	Canolig	Canolig	Sefydlog	15/03/22	01/03/24	2	2	2		
098	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	Canolig	Dynamig	19/05/22	15/07/24	2	5	-	2	
101	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Canolig	Isel	Dibwys	Sefydlog	07/06/22	02/07/24	1	1	1		
105	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	03/01/23	28/10/24	4	1	1	3	
108	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	Dibwys	Dynamig	20/12/22	09/10/24	2	5	-	2	
110	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	09/05/23	11/09/24	2	0	2		
112	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	Isel	Dynamig	01/05/23	19/10/24	2	3	2		
115	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Dibwys	Sefydlog	20/06/23	06/09/24	1	4	1		
117	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Isel	Isel	Dynamig	18/07/23	11/11/24	2	0	2		
118	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Isel	Sefydlog	14/09/23	12/08/24	3	3	3		
120	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	Canolig	Dynamig	10/10/23	21/10/24	2	0	2		
121	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Difrifol	Isel	Dynamig	10/10/23	22/10/24	2	4	2		
123	Proses Ymadawyr	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	28/11/23	30/09/24	5	7	5		
124	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Isel	Dynamig	20/12/23	11/11/24	2	4	2		
125	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Isel	Dynamig	09/01/24	09/11/24	3	1	1	2	
127	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Isel	Isel	Sefydlog	08/04/24	25/07/24	1	2	1		

128	Cynaliadwyedd Ariannol Gan Bwyll	Uchel	Canolig	Isel	Sefydlog	21/02/24	24/09/24	1	3	1		
129	Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn HGC	Difrifol	Uchel	Uchel	Dynamig	22/02/24	23/10/24	16	3	16		
130	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	02/04/24	23/07/24	0	4	0		

12. CRYNODEB AM RISGIAU SCHTh AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 12/11/2024

URN	Teitl y Risg	Lefelau'r Risg			Math o Risg	Dyddiad y Risg a Godwyd	Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	Cynnydd Gweithrediadau Risg				
		Cyn Rheolaethau	Yn bresennol	Targed				Gweithrediadau Neilltuol	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau	Ar y Gweill	Ar y trywydd iawn ond gyda Phroblemau	Dim ar y Gweill
109	Digonolrwydd adnoddau ariannol 2024/2025	Difrifol	Canolig	Canolig	Sefydlog	26/04/23	22/10/24	2	0	2		

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Rhagfyr 2024

Teitl:	Rhaglen Waith Arfaethedig
Awdur:	Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Cytuno ar y rhaglen waith
Lefel Sicrwydd	Amherthnasol
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ X Penderfyniad ☐ Trafodaeth ☐ Sicrwydd ☐ Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	• Sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgor yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn. • Nodir eitemau gorfodol felly. Os ydy'r eitemau hyn yn cael eu ystyried yn ôl dyddiad cau statudol fel arfer, amlygir y dyddiad cau hwn hefyd.
Argymhellion:	Cymeradwyo'r rhaglen waith (a allai ystyried gwelliannau awgrymedig sy'n codi o'r cyfarfod).
Effaith cofrestr risgiau:	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
Goblygiadau sicrwydd:	Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Mae'r rhaglen waith yn cynorthwyo i sicrhau bod holl feysydd perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor.
Effaith Cydraddoldeb:	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

4 Rhagfyr 2024

RHAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn derbyn rhaglen waith yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgorau yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.

1.1 Yn ogystal, mae eitemau i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio i'w nodi drwy ffyrdd amrywiol – gan swyddogion, staff neu aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith yn llai ffurfiol, ac yn cael eu hychwanegu at yr agenda fel mae'n briodol.

1.2 Gwahoddir aelodau i awgrymu eitemau i'w cynnwys ar y rhaglen waith a gellir gwneud hyn drwy gysylltu hefo'r Prif Swyddog Cyllid.

1.3 Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad ydy dyddiad cyfarfod wedi'i gadarnhau eto, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

2. ARGYMHELLION

2.1 Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.

2.2 Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

2.3 Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.

3. RHAGLEN WAITH

3.1 Gan eithrio eitemau a amserlennwyd sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.

3.2 Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2024/25	Diben
Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol)	• Diweddariad Busnes yn cynnwys Gwerth am Arian *Cais gan y CA* • Diweddariad HMICFRS (wedi'i ymgorffori i'r uchod oni bai ei fod yn sylweddol) *swyddogaeth graidd* • Diweddariad Archwilio Mewnol *swyddogaeth graidd* • Diweddariad Risgiau *swyddogaeth graidd* • Newidiadau sefydliadol *swyddogaeth graidd* • Diweddariad Digidol TGCh – Rheoli, Windows 2008 a cherrig milltir NEP *swyddogaethau ehangach sesiynau caeedig* • Rhaglen Waith • Diweddariad Cynllun Gweithredu'r CA *sesiynau caeedig*	• Cais gan y CA • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cais gan yr Heddlu • Sicrhau bod yr holl swyddogaethau craidd a gorfodol eraill yn cael eu cynllunio yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl swyddogaethau ehangach ac eitemau eraill a gytunwyd yn cael eu gosod ger bron. • Cais gan y CA

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2024/25	Diben
25 Mawrth 2025	• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)	• Cylch Gorchwyl (craidd) ○ Wedi oedi – yn dibynnu ar lofnodi cyfrifon

	• Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) – canolbwyntio ar danwario • Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Archwilio Cymru – cynllun blynyddol • Diweddariad Moeseg • Strategaeth Stadau • Diweddariad Mapio Doniau • Paratoi ar gyfer PSIAS newydd • Diweddariad Gwerth am Arian – yr heddlu • Chwythu'r chwiban – cyfarwyddyd ar fesurau sydd ar waith gan y Pennaeth Safonau Proffesiynol • Adroddiad at wraidd y mater – Risg 91 – Colli arian a fuddsoddwyd ar y farchnad arian • Cydweithredu	• Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – gorfodol i'w gymeradwyo erbyn 1 Ebrill 2025) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Yn gysylltiedig hefo strategaeth gyfalaf (gwaith craidd / ehangach) • Cais gan y CA • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (ehangach) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd)
Mehefin/Gorffennaf 2025 (i'w gadarnhau)	• Cyfarwyddyd Technegol Cyfrifon • Cyflwyniad i'r cyfrifon	• Yn gysylltiedig hefo'r angen gorfodol i'r CA adolygu'r cyfrifon cyn llofnod gan y CHTh/PG
29 Gorffennaf 2025	• Datganiad Rheoli'r Heddlu - cyfarwyddyd • Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol • Datganiad Strategaeth Risg a Pharodrwydd Risg – Adolygiad blynyddol • Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys • Adroddiad o'r Adran Gyfreithiol • Archwiliad Diwylliannol – diweddariad ar gynllun gweithredu	• Cylch Gorchwyl (ehangach) • Cylch Gorchwyl (er mwyn sicrhau annibyniaeth ac atebolrwydd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – mae adrodd dros dro yn orfodol) • Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach) • Cylch Gorchwyl (ehangach)

	• Cyfarwyddyd – Gwasanaethau a gomisiynwyd (gan gynnwys Checkpoint) • Adroddiad at wraidd y mater risg – Risg 125 – system recordio o fewn y cerbyd *(sesiwn gaeedig)* • Cynaliadwyedd	• Cais gan y CA • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (ehangach)
Hydref 2025 (i'w gadarnhau)	• Sesiwn hyfforddi CA Cymru Gyfan	• Cylch Gorchwyl (craidd)
28 Hydref 2025	• ISA 260 a llofnodi cyfrifon • Diweddariad llywodraethu • Diweddariad Cynaliadwyedd • Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS • Diweddariad caffael (gan gynnwys gweithredu rheoliadau newydd) • Adroddiad at wraidd y mater risg – Risg 129 – Deallusrwydd Artiffisial *(sesiwn gaeedig)*	• Swyddogaeth statudol – Y dyddiad cau ydy 31 Gorffennaf 2025, ond gall fod dyddiadau estynedig yn 2025. • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd)
16 Rhagfyr 2025	• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr) • Diweddariad Llywodraethu • Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys • Adroddiad o'r Adran Gyfreithiol • Diweddariad Gwerth am Arian – yr heddlu • Adroddiad HMICFRS – Adolygiad PEEL	• Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd/ehangach – mae adrodd yn orfodol) • Cais gan SCHTh/Heddlu • Cylch Gorchwyl (craidd) • Cylch Gorchwyl (craidd)

Eitemau eraill i'w trafod gyda'r CA	Cynllun Gweithredu Gwerthuso CA – Sicrhau fod sesiynau ymroddedig a chaeedig wedi'u trefnu yn ôl yr angen er mwyn symud gweithrediadau cynllun Gwerthusiad y CA yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd gan ystyried darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn benodol. Cyflwyno Rhaglen TG (yn fisol, tu allan i gyfarfodydd) Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol Cynaliadwyedd a datgarboneiddio Adolygu/goruchwylio trefniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau a chydweithrediad *swyddogaeth graidd*

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
4.2	Ariannol	Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd.
4.3	Cyfreithiol	Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei Cylch Gorchwyl, sydd wedi'i baratoi yn unol ag *Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and police – 2022 Edition (CIPFA)*. Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.
4.4	Cymuned	Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu.
4.5	Risg	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
4 .6	Heddlu a Throsedd	Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol.

Awdur yr Adroddiad:

Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 5 Rhagfyr 2024

Teitl:	**Adroddiad Dwywaith y Flwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024-25**
Awdur:	**Prif Swyddog Cyllid**
Diben yr adroddiad:	**Adrodd ar gyflawniad rheoli'r trysorlys**
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth ☐ **Sicrwydd** ☐ Gwybodaeth
Crynodeb Gweithredol / Pwyntiau Allweddol:	• Mae Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn gofyn i adroddiad ar gyflawniad Rheoli'r Trysorlys gael ei ystyried o leiaf ddwywaith y flwyddyn gan y CA. • Mae gofyniad newydd yn y Cod diwygiedig ar gyfer 2021, sy'n orfodol o 1 Ebrill 2023, sef adroddiadau chwarterol o ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Adroddir y rhain drwy eithriad i'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Rheoli Strategol, ac mae hefyd yn cynnwys dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhan o'r trysorlys. • Mae'n cynnwys crynodeb o weithgarwch Rheoli'r Trysorlys a wnaed yn chwe mis cyntaf 2024-25. • Mae'n ymdrin â buddsoddi arian parod sy'n weddill ac unrhyw ofynion benthyca. Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd adnoddau mantolen cryf sy'n arwain at sefyllfa buddsoddwr net yn mynd ymlaen (h.y. nid oes angen arfaethedig i fenthyg ar gyfer y tymor canolig). • Mae'n tynnu sylw at a dorrwyd unrhyw gyfyngiadau neu ddangosyddion ai peidio. **Yn y 6 mis sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn, ni thorrwyd dangosyddion statudol.**
Argymhellion:	Cyflwynir yr adroddiad i'r CA am wybodaeth a sylwadau, ac i roi ei sicrwydd cyn cyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim effaith – mae'r trefniadau wedi'u llunio er mwyn rheoli'r risg buddsoddi a benthyg.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cyflawniad o ran rheolau a chyfyngiadau a gytunwyd ar gyfer buddsoddi a benthyg arian yn ôl y strategaeth Rheoli'r Trysorlys sydd mewn lle ar gyfer 2023-24.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim effaith.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim gwybodaeth wedi'i hesgusodi.

Adroddiad Rheoli'r Trysorlys H1 2024/25

1. Cyflwyniad

Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fabwysiadu *Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Cod Ymarfer* (Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddu Cyhoeddus sy'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd dderbyn adroddiadau alldro dwywaith y flwyddyn a blynyddol rheoli'r trysorlys o leiaf.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021 sef adroddiadau chwarterol am ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Adroddir y rhain drwy eithriad i'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Rheoli Strategol, ac mae hefyd yn cynnwys dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhan o'r trysorlys.

Mabwysiadwyd strategaeth rheoli'r trysorlys 2024/25 y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ffurfiol fel rhan o'i Strategaeth Gyfalaf ar 28 Mawrth 2024 gan y Comisiynydd yn dilyn craffu gan y Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Mawrth 2024. Nid ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd a'r effaith refeniw o newid cyfraddau llog. Mae llwyddo nodi, monitro a rheoli risg yn parhau'n ganolog i strategaeth rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

2. Cyd-destun Allanol

Cefndir economaidd: Arhosodd prif chwyddiant prisiau defnyddwyr y DU o gwmpas targed Banc Lloegr yn ddiweddarach yn y cyfnod, gan ostwng o gyfradd flynyddol o 3.2% ym mis Mawrth i 2.0% ym mis Mai ac yna adlamu ychydig i fis Mehefin i 2.2% ym misoedd Gorffennaf ac Awst, fel y disgwyliwyd, oherwydd effeithiau sylfaenol prisiau ynni. Parhaodd chwyddiant prisiau craidd a gwasanaethau yn uwch ar 3.6% a 5.6% yn y drefn honno ym mis Awst.

Parhaodd economi'r DU ehangu dros y cyfnod, er ei fod yn arafu o'r cynnydd o 0.7% yn y chwarter calendr cyntaf i 0.5% (wedi'i ddiwygio i lawr o 0.6%) yn yr ail. O'r ffigyrau misol, amcangyfrifwyd nad oedd yr economi wedi cofrestru unrhyw dwf ym mis Gorffennaf.

Roedd data marchnad lafur ychydig yn well o safbwynt lluniwr polisi, gan ddangos llacio yn y farchnad swyddi, hefo cyfraddau segurdod a swyddi gwag yn gostwng. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau oherwydd problemau parhaus ynghylch y data a gasglwyd ar gyfer arolwg y gweithlu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dangosodd ffigyrau ar gyfer y tri mis hyd at fis Gorffennaf fod y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng i 4.1% (3 mis / blwyddyn) o 4.4% yn y cyfnod tri mis blaenorol tra bod y gyfradd gyflogaeth wedi codi i 74.8% o 74.3%.

Dros yr un cyfnod roedd enillion rheolaidd cyfartalog (ac eithrio taliadau bonws) yn 5.1%, i lawr o 5.4% yn y cyfnod cynharach. Cyfanswm enillion (gan gynnwys taliadau bonws) oedd 4.0% (effeithiwyd ar y ffigwr hwn gan daliadau untro a wnaed i staff a gweision sifil y GIG ym mis Mehefin a Gorffennaf 2023). Gan addasu ar gyfer chwyddiant, cododd cyflog rheolaidd go iawn 2.2% ym mis Mai i fis Gorffennaf a chyfanswm cyflog 1.1%.

Hefo'r prif chwyddiant yn is, torrodd Banc Lloegr Cyfradd y Banc o 5.25% i 5.00% yng nghyfarfod Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) mis Awst. Roedd y penderfyniad yn gytbwys. Pleidleisiodd mwyafrif o 5-4 hefo pedwar aelod yn well ganddynt ddal arni ar 5.25%. Yng nghyfarfod Pwyllgor Polisi Ariannol mis Medi, pleidleisiodd aelodau'r pwyllgor 8-1 o blaid dim newid ar 5.00%, hefo'r unig anghytunwr yn ffafrio torri cyfradd y banc eto i 4.75%. Roedd cofnodion y cyfarfod a'r bleidlais yn awgrymu gogwydd gweddol hebogaidd i gyfraddau, hefo chwyddiant gludiog yn parhau bod yn bryder ymhlith llunwyr polisi.

Dangosodd Adroddiad Polisi Ariannol diweddaraf Banc Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Awst, fod llunwyr polisi yn disgwyl i dwf GDP barhau ehangu yn ystod 2024 cyn cwympo yn ôl a chymedroli rhwng 2025 a 2027. Rhagwelwyd y byddai diweithdra yn aros tua 4.5% tra dangoswyd bod chwyddiant yn codi yn rhan olaf 2024 wrth i ddirywiad prisiau ynni'r blynyddoedd blaenorol ostwng o'r ffigurau cyn llithro o dan y targed o 2% yn 2025 ac aros yno tan ddechrau 2027.

Cynhaliodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ei farn ganolog y byddai Cyfradd y Banc yn gostwng yn raddol o'r uchafbwynt o 5.25%, hefo'r toriad cyntaf ym mis Awst yn cael ei ddilyn gan gyfres o doriadau pellach, hefo mis Tachwedd 2024 yr un nesaf tebygol, gan ostwng Cyfradd y Banc i tua 3% erbyn diwedd 2025.

Mae Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau (y Ffed) hefyd wedi torri cyfraddau llog yn ystod y cyfnod, gan leihau'r Gyfradd Cronfeydd Ffederal 0.50% i ystod o 4.75% -5.00% yn ei gyfarfod polisi ym mis Medi. Roedd y rhagolygon a ryddhawyd ar yr un pryd gan y banc canolog yn awgrymu bod disgwyl 1.00% arall o lacio erbyn diwedd y flwyddyn galendr, ac yna'r un swm yn 2025 ac yna 0.50% terfynol o doriadau yn ystod 2026.

Ar ôl gostwng cyfraddau llog yn gyntaf ym mis Mehefin, cynhaliodd Banc Canolog Ewrop (ECB) yn gyson ym mis Gorffennaf cyn torri eto ym mis Medi, gan leihau ei brif gyfradd ail-ariannu i 3.65% a'i gyfradd adneuo i 3.50%. Yn wahanol i'r Ffed, nid ydy'r ECB wedi amlinellu llwybr cyfraddau tebygol yn y dyfodol. Ond mae amcanestyniadau chwyddiant yn parhau i fod yn unol â rhagolygon blaenorol y banc canolog lle bydd yn aros yn uwch na'i darged o 2% tan 2026 yn flynyddol.

Marchnadoedd ariannol: Parhaodd teimlad mewn marchnadoedd ariannol i wella'n bennaf dros y cyfnod, ond arhosodd y patrwm parhaus o anwadalrwydd cynnyrch bondiau. Cafodd y patrwm cyffredinol ar i fyny mewn cynnyrch yn gynnar yn y cyfnod ei wrthdroi yn ddiweddarach. Daeth yr arenillion i ben yn yr hanner blwyddyn heb fod yn rhy bell o'r man lle dechreuon nhw. Fodd bynnag, roedd yr anwadalrwydd mewn ymateb i faterion economaidd, ariannol a geowleidyddol yn golygu ei bod yn daith anwastad i fuddsoddwyr bond yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dros y cyfnod, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 3.94% a daeth i ben ar 4.00% ond fe gyrhaeddodd uchafbwynt o 4.41% ym mis Mai ac isafbwynt o 3.76% ganol mis Medi. Er i'r gilt 20 mlynedd ddechrau ar 4.40% a darfod ar 4.51%, fe gyrhaeddodd uchafbwynt o 4.82% ym mis Mai ac isafbwynt o 4.27% ganol mis Medi. Roedd y Gyfradd Dros Nos Sterling (SONIA) yn 5.12% ar gyfartaledd dros y cyfnod hyd at 30 Medi.

Adolygiad credyd: Gwnaeth Arlingclose barhau ei gyfyngiad hyd anwarantedig uchafswm argymelledig bwriadol ar bob banc ar ei restr partïon i gontract ar 100 diwrnod.

Ar ôl cynyddu ei rhagolwg gan Fitch a sgôr gan S&P yn gynharach yn y cyfnod, uwchraddiwyd sgôr Transport for London i A2 o A3 ym mis Gorffennaf.

Gwnaeth Moody hefyd osod Banc Cenedlaethol Canada ar Wyliadwriaeth Graddiad am uwchraddiad posibl. Gwnaeth adolygu rhagolwg Standard Chartered i Gadarnhaol, rhagolwg Banc Dominiwn Toronto i Negyddol, ac israddio sgôr Close Brothers i A1 o Aa3.

Uwchraddiodd S&P y sgôr ar Fanc Cenedlaethol Canada i A + o A, ac ynghyd â Fitch, neilltuodd y ddwy asiantaeth raddio Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Sir Gaerhirfryn hefo sgôr o AA- ac A + yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, roedd prisiau cyfnewid diofyn credyd yn is ar ddiwedd y cyfnod o'i gymharu â'r dechrau ar gyfer y rhan fwyaf o'r enwau ar restrau'r DU a'r tu allan i'r DU. Roedd anwadalrwydd prisiau dros y cyfnod hefyd yn gyffredinol yn ddistawach o'i gymharu â chyfnodau blaenorol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol aros yn nodwedd, o leiaf yn y tymor agos. Bydd lefelau cyfnewid diofyn credyd yn cael eu monitro am arwyddion straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r hyd ar restr partïon i gontract y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a argymhellwyd gan Arlingclose yn parhau o dan adolygiad cyson.

3. Cyd-destun Lleol

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau net o £30.5m yn codi o'i refeniw ac incwm cyfalaf a gwariant. Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai adnoddau mantolen ydy adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Crynhoir y ffactorau hyn yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen

	Presennol 31.3.24 £m	**Meincnod 2023-24 £m**
GCC Cronfa Gyffredinol	26.4	32.3
Llai: *Dyledion eraill	(6.2)	(6.2)
CFR Benthyca	**20.2**	**26.1**
Benthyca Allanol	(7.9)	# (7.9)
Benthyca mewnol (gormod)	**12.3**	**18.2**
Llai: Adnoddau mantolen	(42.8)	(28.2)
Benthyca net / (buddsoddiadau)	**(30.5)**	**# (10.0)**

* prydlesi cyllid, rhwymedigaethau PFI a dyled wedi'i throsglwyddo sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ffynhonnell: Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2023-24 (tablau amrywiol)

er mwyn cynnal meincnod isafswm buddsoddiad o £10m

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi a'r newid dros y chwe mis yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Crynodeb Rheoli'r Trysorlys

	Gweddill 31.3.24 £m	**Symudiad £m**	**Gweddill 30.9.24 £m**	**Cyfartaledd Pwysedig Cyfradd 30.9.24 %**	**Meincnod 2024-25 £m**
Benthyciadau tymor hir	7.9	(0.3)	7.6	1.25	7.4
Benthyciadau tymor byr	0.0	0.0	0.0	-	-
Cyfanswm benthyca	**7.9**	**(0.3)**	**7.6**	**1.25**	**7.4**
Buddsoddiadau tymor hir	0	0	0	-	-
Buddsoddiadau tymor byr	(22.7)	(32.1)	(54.8)	(4.31)	-
Arian parod ac arian parod cyfwerth	(7.8)	(1.3)	(9.1)	(0.69)	-
Cyfanswm Buddsoddiadau	**(30.5)**	**(33.4)**	**(63.9)**	**(5.00)**	**# (10.0)**
Buddsoddiadau net	**(22.6)**	**(33.7)**	**(56.3)**	**(3.75)**	**-**

er mwyn cynnal meincnod isafswm buddsoddiad o £10m

4. Strategaeth a Gweithgarwch Benthyca

Fel yr amlinellwyd yn strategaeth y trysorlys, prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca ydy taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Ceir hyblygrwydd er mwyn ail-drafod benthyciadau fel amcan eilradd os ydy cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ymdrin â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyled. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau llog tymor byr yn uwch na chyfraddau llog tymor hir.

Ar ôl cynnydd sylweddol mewn cyfraddau llog ers 2021 mae llawer o fanciau canolog bellach wedi dechrau lleihau cyfraddau, er yn araf. Roedd arenillion gilt yn gyfnewidiol dros y cyfnod 6 mis ac maent wedi lleihau ychydig rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024. Cafodd llawer o'r pwysau ar i lawr o ffigyrau chwyddiant is ei wrthweithio gan bwysau cynyddol data economaidd cadarnhaol. Mae data o'r UD yn parhau effeithio ar farchnadoedd bond byd-eang gan gynnwys arenillion gilt y DU.

Roedd cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd yn 4.80% ar ddechrau'r hanner blwyddyn a 4.79% ar y diwedd. Y gyfradd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf oedd ar gael oedd 4.52% a'r uchaf oedd 5.18%. Roedd cyfraddau benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.01% i 5.57% yn ystod yr hanner blwyddyn, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd o 4.88% i 5.40%.

Er bod cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill yn cynyddu i tua 7% ddiwedd mis Mawrth 2024, yn bennaf oherwydd prinder gweithgarwch benthyca LA-LA yn ystod y mis, yn ôl y disgwyl dychwelodd cyfraddau tymor byrrach i ystod fwy arferol ac roeddent yn gyffredinol tua 5.00% - 5.25%.

Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn glir na ddylai awdurdodau lleol fenthyg er mwyn buddsoddi'n bennaf ar gyfer elw ariannol. Nid yw'n ddarbodus i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd wneud unrhyw fuddsoddiad neu benderfyniad ar wario a wnaiff gynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac y gall arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn berthnasol yn uniongyrchol neu'n bennaf i swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Nid ydy benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) bellach ar gael i brynu asedau buddsoddi'n bennaf ar gyfer arenillion oni bai bod y benthyciadau hyn at ddibenion ail-gyllido. Nid oes gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd unrhyw gynlluniau newydd i fenthyca i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer elw ariannol.

Portffolio Benthyciadau: Ar 30 Medi fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddal £7.6m o fenthyciadau, gostyngiad o £0.3m hyd at 31 Mawrth 2024. Roedd hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a phresennol. Crynhoir benthyciadau dros ben ar 30 Medi yn Nhabl 3A isod.

Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca

	Gweddill 31.3.24 £m	**Symudiad Net £m**	**Gweddill 30.9.24 £m**	**Cyfartaledd Pwysedig Cyfradd 30.9.24 %**	**Cyfartaledd Pwysedig Aeddfedrwydd (blynyddoedd) 30.9.24**
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	7.9	(0.3)	7.6	1.25	12.5
Cyfanswm benthyca	**7.9**	**(0.3)**	**7.6**	**1.25**	**12.5**

5. Gweithgarwch dyled arall

Er nad ystyrir fel benthyca, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gytundeb tymor hir o dan PFI (Menter Gyllid Breifat). Ar 31 Mawrth 2024 arhosodd cyfanswm dyled oni bai am fenthyca ar £6.2m, gan fynd â

chyfanswm dyled i £14.1m. Amcangyfrifir mai cyfanswm y ddyled ar 30 Medi 2024 ydy £13.3m.

6. Gweithgarwch Buddsoddiadau'r Trysorlys

Mae Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA bellach yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel buddsoddiadau sy'n codi o lifoedd arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu weithgarwch rheoli risg y trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli gweddill sydd angen ei fuddsoddi hyd nes bydd angen yr arian parod ar gyfer defnydd busnes.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfeydd sylweddol wedi'u buddsoddi, sy'n mynegi incwm a dderbynnir o flaen gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod yr hanner blwyddyn, roedd balansau buddsoddiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd rhwng £30.4m a £76.4m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Gweler y sefyllfa fuddsoddi yn graff 1 a thabl 4 isod.

Graff 1: Balans Buddsoddi Dyddiol



Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddiadau'r Trysorlys

	Gweddill 31.3.24 £m	Net Symudiad £m	Gweddill 30.9.24 £m	Elw Incwm 30.9.24 %	Dyddiau Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol dyddiau 30.9.24
Banciau a chymdeithasau adeiladu (anwarantedig)	3.33	(3.07)	0.26	3.37	0.01
Bond yswiriedig	0.00	7.50	7.50	5.13	18.54
Llywodraeth (yn cynnwys biliau'r trysorlys ac awdurdodau lleol) ac endidau eraill y llywodraeth	22.59	28.69	51.28	5.00	40.28
Cronfeydd Marchnad Arian	4.45	0.42	4.87	4.88	0.08
Cyfanswm Buddsoddiadau	**30.37**	**33.54**	**63.91**	**5.00**	**58.90**

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd orau o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian ydy taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Fel y dangosir gan y meincnod dyledion yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly gwneir buddsoddiadau newydd yn y trysorlys yn bennaf. Mae hyn er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Bydd y portffolio presennol o gronfeydd cyfun strategol yn cael eu cynnal i arallgyfeirio risg i ddosbarthiadau asedau gwahanol a hybu incwm buddsoddi.

Gostyngodd Cyfradd y Banc o 5.25% i 5.00% ym mis Awst 2024, hefo cyfraddau llog tymor byr o gwmpas y lefelau hyn i raddau helaeth. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF (Cyfleuster Adneuon Cyfrif Rheoli Dyledion) yn amrywio rhwng 4.93% a 5.2% a chyfraddau'r farchnad arian rhwng 4.8% a 5.3%.

Dangosir cynnydd metrigau risg ac elw yn y darnau o feincnodi buddsoddiadau chwarterol Arlingclose yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Meincnodi Buddsoddiadau – buddsoddiadau'r Trysorlys wedi'u rheoli'n fewnol

	Sgôr Credyd	**Gradd Gredyd**	**Dadleniad Achub Croen**	**Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (dyddiau)**	**Cyfradd Elw %**
31.03.2024	4.04	AA-	26%	64	5.16%
30.09.2024	3.49	AA	8%	59	5.00%
LAs Tebyg	**4.40**	**AA-**	**68%**	**31**	**4.77%**
Holl LAs	**4.60**	**A+**	**61%**	**11**	**4.90%**

Buddsoddwyd £7.5m a oedd ar gael ar gyfer y tymor hirach mewn bondiau o dan do a £14.7m ym Miliau'r Trysorlys hefo'r Swyddfa Rheoli Dyledion.

Cafodd chwe mis cyntaf 2024/25 eu nodi gan anwadalrwydd parhaus yn y farchnad. Roedd arenillion bond byd-eang yn parhau'n uchel, er bod tuedd ar i lawr wrth i lunwyr polisi gadw cyfraddau ar lefel gyfyngol gan ystyried chwyddiant craidd parhaus tan bron i ddiwedd y cyfnod. Roedd hyn pan ddechreuodd y Pwyllgor Polisi Ariannol, y Gronfa Ffederal a Banc Canolog Ewrop gyflawni toriadau mewn cyfraddau a llofnodi symudiad tuag at lacio polisi ariannol.

Cafodd marchnadoedd stoc ledled y DU, Ewrop a'r Unol Daleithiau eu bywiogi gan obeithion am doriadau mewn ardrethi dros hanner cyntaf y cyfnod. Gwelodd ecwitïau'r DU dwf mewn cwmnïau bach a chanolig tra bod yr Unol Daleithiau yn parhau cael ei gynorthwyo gan ei sector TG cryf, yn enwedig twf mewn cwmnïau Deallusrwydd Artiffisial a barhaodd i gyflawni'n well. Gwnaeth enwau TG gyflawni'n dda yn ardal yr Ewro yn ogystal, tra gostyngodd stociau dewisol defnyddwyr. Tua diwedd y cyfnod, cynyddodd anwadalrwydd y farchnad ar ôl i bryderon am ddirwasgiad yr Unol Daleithiau gyd-daro hefo cyfraddau llog torri banc canolog Japan, gan arwain at ddatod y 'fasnach fuddsoddi' Yen boblogaidd. Gwelodd hyn werthu enfawr o ran ecwitïau yn fyd-eang, ond mae marchnadoedd wedi gwella'n gyflym heb effaith barhaol. Mae arafu yn economi Tsieina a thensiwn geowleidyddol parhaus yn y Dwyrain Canol ac Ewrop yn parhau i bwyso ar farn buddsoddwyr ond maent yn cael eu gosod yn erbyn llacio polisi ariannol a disgwyl toriadau pellach i gyfraddau. Roedd mynegai Holl Gyfrannau'r FTSE ychydig yn is ar ddiwedd y cyfnod 6 mis yn 4529 ar 30/9/24 o'i gymharu â 4338 ar 31/3/24. Roedd Mynegai Byd Holl Wledydd MSCI yn uwch ar 3,723 ar 30/9/24 o'i gymharu â 3,438 ar 31/3/24.

Ar ôl cyfnod parhaus o gyfraddau llog uchel, dechreuodd banciau canolog newid safle tuag at ail hanner y flwyddyn. Dechreuodd Banc Canolog Ewrop dorri cyfraddau ym mis Mehefin. Cyflwynodd Banc Lloegr ei doriad cyfradd gyntaf ym mis Awst, a synnodd y Gronfa Ffederal farchnadoedd hefo toriad cyfradd rhy fawr o 50bps ym mis Medi. Mae'r sefydlogi mewn cyfraddau llog a'r symudiad sydd wedi'i gyfleu'n dda tuag at doriadau cyfraddau, er ei fod ar gyflymder llawer mwy ceidwadol na'r disgwyl yn flaenorol, wedi caniatáu rheolwyr cronfeydd fod yn barod am amgylchfyd cyfradd sy'n gostwng.

Dechreuodd gwerthoedd eiddo masnachol y DU sefydlogi, yna gwella ychydig tua diwedd y cyfnod, hefo cyfraddau llog yn cael eu torri o'u brig a sylw buddsoddwyr yn troi at amseru toriadau cyfraddau llog pellach. Mae gweithgarwch trafodion yn parhau'n isel. Ond gobeithir y bydd arwyddion o adferiad yn y marchnadoedd deiliaid a rhentu yn ogystal â thwf economaidd cymedrol a chyfraddau llog sy'n gostwng ymhellach yn ffafriol ar gyfer rhagolygon sector eiddo sy'n gwella dros y tymor canolig. Disgwylir i dwf cyfalaf fod yn raddol tra bod lefelau incwm yn parhau'n gryf i lawer o is-sectorau.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyllidebu £1.72m o incwm o'r buddsoddiadau hyn yn 2024/25. Ers hynny, mae wedi diwygio'r amcangyfrif hwn i £2.02m. Roedd incwm a dderbyniwyd hyd at 30 Medi yn £0.61m, a bydd £1.19m arall yn cronni o fuddsoddiadau y cytunwyd arnynt.

Mesur lliniaru statudol: Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Adran Ffyniant Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ganlyniad llawn yr ymgynghoriad ar ymestyn y mesur lliniaru statudol ar gyfrifyddu enillion a cholledion cronfeydd buddsoddi wedi'u cronni. Mae'r mesur lliniaru wedi'i ymestyn am 2 flynedd tan 31 Mawrth 2025, ond nid oes newid arall wedi bod. Mae'n anhysbys os bydd y mesur lliniaru'n cael ei ymestyn tu hwnt i'r dyddiad newydd ond mae sylwebaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad yn awgrymu fel arall.

7. Buddsoddiadau Ddim yn y Trysorlys

Mae diffiniad buddsoddiadau yng Nghod Rheoli'r Trysorlys bellach yn cwmpasu holl asedau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd ag asedau anariannol eraill y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei gadw yn bennaf am elw ariannol. Categoreiddir buddsoddiadau nad ydynt yn bodloni diffiniad buddsoddiadau rheoli'r trysorlys (h.y., rheoli arian parod dros ben) fel un ai at ddibenion gwasanaeth (wedi'u gwneud yn groyw i hyrwyddo amcanion gwasanaeth pellach) a/neu at ddibenion masnachol (wedi'u gwneud yn bennaf am elw ariannol).

Mae Canllawiau Buddsoddi a roddir gan yr Adran Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys y diffiniad o fuddsoddi pob ased tebyg a gedwir yn rhannol neu gyfan gwbl am elw ariannol.

Nid oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau nad oedd yn y trysorlys.

8. Cydymffurfiaeth

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd fod holl weithgarwch rheoli'r trysorlys a ymgymerir yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio'n llawn â Chod Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwelir cydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn nhabl 7 isod.

Tabl 7: Terfynau buddsoddiad

	Uchafswm 2024/25	**Presennol 30.9.24**	**Terfyn 2024/25**	**Wedi cydymffurfio?** Do/Naddo
Unrhyw sefydliad unigol, oni bai am Lywodraeth y DU	£7.50m	£7.50m	£7.50m	Do
Cronfeydd Marchnad Arian	£4.98m	£4.87m	£5.00m	Do
HSBC (bancwyr y Comisiynydd)	£0.38m	£0.00m	£10.0m	Do

Dangosir cydymffurfiaeth gyda'r terfyn awdurdodedig a ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 8 isod.

Tabl 8: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol

	Uchafswm H1 2024/25	**Presennol 30.9.24**	**Ffin Weithredol 2024/25**	**Terfyn Awdurdodedig 2024/25**	**Wedi cydymffurfio?** Do/Naddo
Benthyca	£7.9m	£7.6m	£26.19m	£28.19m	-
PFI a Phrydlesoedd Cyllid	£6.2m	£5.7m	#£5.13m	#£5.13m	-
Cyfanswm dyled	**£14.1m**	**£13.3m**	**£31.32m**	**£33.32m**	Do

 # yn seiliedig ar y sefyllfa diwedd blwyddyn

Gan fod y ffin weithrediadol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro blwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os torrir y ffin weithrediadol ar brydiau oherwydd amrywiadau mewn llif arian parod. Ni chyfrifir hyn fel methiant cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, nid ydy 'Cyfanswm dyled' uwchben y ffin weithredol ers 1 Ebrill 2024.

9. Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys

Fel sy'n unol â Chod Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro a mesur dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys canlynol.

Meincnod Dyledion: Mae'r dangosydd hwn yn cymharu benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran meincnod dyledion sydd wedi'i gyfrifo er mwyn dangos y lefel risg benthyca isaf. Mae'r meincnod dyledion yn offeryn pwysig er mwyn cynorthwyo sefydlu a ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn debygol o fod yn fenthyciwr tymor hir neu fuddsoddwr tymor hir yn y dyfodol, ac felly siapio ei ganolbwynt strategol a gwneud penderfyniadau. Mae'n dangos amcangyfrif o'r swm benthyca allanol cronnus rhaid i'r Cyngor ei ddal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol wrth gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel sylfaenol angenrheidiol er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd.

	Presennol 31.3.24	**Rhagolwg 31.3.25**	**Rhagolwg 31.3.26**	**Rhagolwg 31.3.27**
Benthyciadau GCC	£20.1m	£20.4m	£30.4m	£32.9m
Llai: Adnoddau mantolen	(£55.6m)	(£40.6m)	(£36.4m)	(£33.9m)
Gofyniad benthyciadau net	(£35.5m)	(£20.2m)	(£6.0m)	(£1.0m)
Ychwanegiad: Lwfans hylifedd	£10.0m	£10.0m	£10.0m	£10.0m
Meincnod rhwymedigaeth	**(£25.5m)**	**(£10.2m)**	**£4.0m**	**£9.0m**
Benthyca presennol	**£7.9m**	**£7.4m**	**£6.9m**	**£6.4m**

Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn dilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn y tabl uchod, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn bwriadu parhau wedi'i fenthyg yn unol â'i rhagolwg llif arian parod er mwyn lleihau risg. Mae'r rhagolwg llif arian parod yn adlewyrchu'r lefelau i fyny ac i lawr dros y flwyddyn ariannol lle mae'r meincnod dyledion yn adlewyrchu pwynt penodol mewn amser. Mae'r ddau angen eu hystyried wrth benderfynu benthyca. Mae'r rhagolwg uchod yn awgrymu nad ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl benthyca yn 2024/25 ond efallai bydd angen ystyried benthyca (o bosib yn y tymor byr) yn 2026/27.



Y cysyniad ydy bod y siart uchod yn caniatáu cymhariaeth o fenthyca cyfredol (benthyciadau cyfradd sefydlog llwyd) hefo'r angen i fenthyca, gan edrych ar y swm (ar yr echel y) a'r term (ar yr echel x). Os ydy benthyciadau presennol yn fwy na'r meincnod dyledion (llinell goch), gallai'r CHTh wneud buddsoddiadau tymor hir ar gyfer rheoli llif arian parod neu ad-dalu benthyciadau yn gynnar. Os ydy'r meincnod dyledion yn fwy na benthyciadau, gallai'r CHTh gymryd benthyca tymor hir neu werthu buddsoddiadau.

Gellir disgrifio'r adroddiad ariannol cyson (CFR) benthyciadau (llinell las) fel y lefel fenthyca uchaf a ganiateir. A bod yn fanwl gywir, mae'r Cod Darbodus yn caniatáu i'r CHTh ddal dyled hyd at y rhagolwg CFR uchaf ar gyfer y tair blynedd nesaf, ond bydd benthyca hyd at y benthyciadau CFR fel arfer yn golygu lefelau buddsoddiadau uchel, gan wneud y CHTh yn agored i risgiau credyd, prisiau a chyfraddau llog.

Y gofyniad benthyciadau net (llinell ddu ddotiog) ydy'r lefel fenthyca isaf bosibl, lle byddai buddsoddiadau yn sero. Byddai hyn yn gwneud yr awdurdod yn agored i'r risg hylifedd o fethu â gwneud taliadau pan fydd yn ddyledus.

Y meincnod dyledion (llinell goch) wedyn ydy'r man dymunol rhwng y ddau, lle gellir taro cydbwysedd priodol o ran risgiau rhwng y ddau eithaf hyn.

Nid oes rheidrwydd benthyca'n union i'r meincnod dyledion, ond mae penderfyniad benthyca mwy neu lai, neu'n hirach neu'n fyrrach, nag y mae'r meincnod yn awgrymu yn benderfyniad bwriadol i dderbyn risg ychwanegol. Gall hyn fod yn gwbl briodol os bydd gostyngiad yn y gost yn cyd-fynd ag ef, er enghraifft trwy fenthyca tymor byr ar ymylon is. Mae'r meincnod dyledion yn darparu'r offeryn i'r CHTh fesur y risg hon a gwneud penderfyniadau risg/gwobrwyo o'r fath yn agored ac yn benodol.

<u>Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca</u>: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod er mwyn rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail ariannu. Roedd terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedrwydd benthyca yn:

	Terfyn uchaf	Terfyn isaf	Presennol 30.9.24	Wedi cydymffurfio?

O dan 12 mis	100%	0%	6.28%	Do
12 mis ac o fewn 24 mis	100%	0%	12.85%	Do
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	100%	0%	40.57%	Do
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	100%	0%	18.74%	Do
10 mlynedd a mwy	100%	0%	21.55%	Do

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthyca ydy'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys Tymor Hir: Diben y dangosydd hwn yw rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg colledion drwy geisio ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Y terfynau darbodus ar derfynau rheoli'r trysorlys yn y tymor hir ydy:

	2024/25	**2025/26**	**2026/27**	**Dim dyddiad penodol**
Terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£5m	£3m	£1m	£0m
Prif swm presennol a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£0m	£0m	£0m	£0m
Wedi cydymffurfio?	Do	Do	Do	Do

Mae enghreifftiau o fuddsoddiadau tymor hir heb ddyddiau aeddfedrwydd sefydlog yn cynnwys cronfeydd strategol, ymddiriedolaeth buddsoddi eiddo tirol ac ecwiti a gedwir yn uniongyrchol. Ond maent yn eithrio cronfeydd y farchnad arian a chyfrifon banc heb ddyddiad aeddfedrwydd sefydlog. Ystyrir y rhain yn dymor byr.

Dangosyddion ychwanegol

Diogelwch: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro'r radd gredyd gyfartalog o'i bortffolio buddsoddiadau.

	Targed 2024/25	**Presennol 30.9.24**	**Wedi cydymffurfio?**
Statws credyd gyfartalog portffolio	A-	AA	Do

Hylifedd: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn cyfnod o ddeuddeg mis treiglol. Gosodwyd cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod at ddibenion ymarferol er mwyn osgoi benthyca tymor byr diangen.

	Targed 2024/25	**Presennol 30.9.24**	**Wedi cydymffurfio?**
Lleiafswm arian parod sydd ar gael o fewn 12 mis	£10m	£63.9m	Do
Terfyn is am uchafswm o 14 diwrnod	£7.5m	-	Do

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Rhagfyr 2024

Teitl:	Adroddiad Cyfreithiol
Awdur:	Philip Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu
Diben yr adroddiad:	Rhoi gwybodaeth ar gyfreithiad sy'n cynnwys y Prif Gwnstabl Gogledd Cymru
Lefel Sicrwydd:	
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth X Sicrwydd ☐ Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion hawliadau sifil a dderbyniwyd ac a ddatryswyd yn y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2024 ynghyd â chytundebau a thrafodion trawsgludo a gwblhawyd yn ystod yr un cyfnod. Mae'r data hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Strategol.
Argymhellion:	Nodir yr adroddiad.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim newid.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd digonol.
Effaith Cydraddoldeb:	Amherthnasol
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Cynhwysir gwybodaeth wedi'i eithrio o fewn adroddiad ar gyfer y sesiwn gaeedig.

Dyddiad: 4 Rhagfyr 2024

Hawliadau Sifil ac achosion Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2024

Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu yn rheoli, trin a goruchwylio'r holl hawliadau sifil Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a gyflwynwyd yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru.

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn ydy rhoi

1) darparu manylion am nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a wnaed yn erbyn yr Heddlu ym mhob blwyddyn ariannol.

2) rhoi barn am unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg.

3) darparu manylion yr arian a dalwyd mewn setliad ym mhob blwyddyn ariannol.

CEFNDIR

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPR) yn berthnasol wrth gynnal achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. O dan y Protocol Cyn Gweithredu a nodir yn y Rheolau, mae'n ofynnol i unrhyw ddarpar hawliwr gyflwyno llythyr hawlio ar Heddlu Gogledd Cymru fel ymatebydd sy'n nodi ei hawliad yn llawn. Yn unol â hynny, mae'r holl hawliadau a dderbynnir gan Heddlu Gogledd Cymru fel arfer yn cynnwys llythyr o hawliad yn honni niwed ac yn gofyn am iawndal. Mae'n brin ac yn torri rheolau gweithdrefnol i weithdrefnau gael eu cyhoeddi y tu allan i reolau'r protocol cyn gweithredu.

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr yw'r rhai a dderbynnir gan weithwyr yr Heddlu (swyddogion a staff) ac maent yn cynnwys hawliadau Anafiadau Personol sy'n deillio o golled neu anaf a gafwyd yn ystod dyletswydd neu gyflogaeth.

Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hawliadau a gyflwynir gan y cyhoedd yw hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus. Gall hawliadau o'r fath gynnwys honiadau o arestio anghyfreithlon, carchariad ffug, defnydd anghyfreithlon o rym, difrod i eiddo ac erlyniad maleisus.

Hawliadau Cerbydau

Ymdrinnir â hawliadau damweiniau cerbydau gan ein hyswirwyr a'r Adran Fflyd. Caiff unrhyw faterion wedi eu hymgyfreithio eu goruchwylio gan Gyfreithiwr yr Heddlu o 1 Mawrth 2013. Adran y Fflyd sy'n cadw data a gedwir mewn perthynas â hawliadau o'r fath.

Cadernid yr Adran Gyfreithiol

Mae'r bwlch rhwng dyddiad gadael y cyfreithiwr hawliadau sifil ar 22.3.24 a'r un newydd yn dechrau ar 20.1.25 wedi bod yn heriol. Mae'r oedi wedi'i achosi gan yr ymgeisydd dewisol yn tynnu'n ôl o'r broses ar y funud olaf am resymau personol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn hawliadau trefnu trwy gytundeb allanol a bydd cynnydd mewn costau trwy gytundeb allanol.

Atebolrwydd Cyflogwyr

Mae ein Hyswirwyr yn ymdrin â hawliadau o'r fath sy'n cael eu goruchwylio gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Mae rhai hawliadau yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Cytunwyd ar hyn hefo'n hyswirwyr.

Atebolrwydd Cyhoeddus

Ymdrinnir â phob hawliad a'i reoli gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Mae lleiafrif o'r hawliadau hyn yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Goruchwylir pob un gan Gyfreithiwr yr Heddlu.

M A N Y L I O N

Rhwng 1 Ebrill - 30 Medi 2024, derbyniwyd 36 llythyr hawlio yn yr Adran Gyfreithiol ac roedd dau yn hawliadau atebolrwydd Cyflogwyr ac roedd 34 yn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus.

Mae'r tabl isod, lle mae wedi'i farcio'n goch, yn dangos cyfanswm nifer yr hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2024. Mae trafodion wedi'u rhoi o ran un o'r hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y chwe mis diwethaf.

(TABL 1) – CYFANSWM NIFER O HAWLIADAU A DDERBYNIWYD

Blwyddyn	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus	Cyfanswm
2019/2020	7	41	48
2020/2021	6	43	49
2021/2022	2	45	47
2022/2023	5	62	67
2023/2024	8	50	58
2024/2025	2	34	36

Manylion yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod 1 Ebrill – 30 Medi 2024 yn dilyn cwyn

Hawliadau a dderbyniwyd yn dilyn cwyn	Canlyniadau'r gŵyn	Canlyniadau Hawliad Sifil
4	1 x 1 x wedi'i gadarnhau'n rhannol 2 x wedi nodi dysgu	4 x hawliad yn cael eu hymchwilio.

	1 x yn parhau o hyd	

(TABL 2) – CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU BYW

Ar hyn o bryd mae 77 hawliad byw parhaus yn cael eu hymdrin yn yr Adran Gyfreithiol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hawliadau 'gweithredol' a osodwyd yn erbyn blwyddyn wirioneddol y digwyddiad.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hawliadau 'gweithredol' a osodwyd yn erbyn blwyddyn wirioneddol y digwyddiad. (Hawliad sy'n parhau'n fyw yw hawliad gweithredol ac nad yw wedi'i benderfynu eto).

Blwyddyn y Digwyddiad	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus
2013/2014	1	0
2014/2015	1	0
2015/2016	0	0
2016/2017	0	0
2017/2018	0	1
2018/2019	1	3
2019/2020	0	6
2020/2021	1	4
2021/2022	3	12
2022/2023	0	13
2023/2024	2	20
2024/2025	1	8
CYFANSWM	**10**	**67**
CYFANSWM NIFER Y CYFLOGWYR BYW A HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS:		**77**

Y SEFYLLFA BRESENNOL O RAN HAWLIADAU SIFIL BYW

	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus
Achosion a drafodwyd	4	6
Hawliadau wedi'u gwrthod/amddiffyn	4	38
Hawliadau heb eu datrys eto	6	14
Hawliadau dal cael eu hymchwilio/cwynion yn parhau	0	15

(TABL 3) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYFLOGWYR

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Math o Hawliad a Dderbyniwyd	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25
Llithriadau/bagladau/syrthiadau	5	3	1	2	4	1
Straen/Bwlio	0	0	0	0	1	0
RSI	0	0	0	0	0	0
Colli clyw	0	0	0	0	1	0
Anaf ar gwrs hyfforddi	0	0	0	1	2	0
Arall	2	2	1	2	2	1
Anafiadau i fysedd/dwylo	0	1	0	0	0	0
Cyfanswm	**7**	**6**	**2**	**5**	**8**	**2**

Sylwadau

Y math mwyaf cyffredin o hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd uchod oedd achosion o lithro, baglu a disgyn.

(TABL 4) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o niwed a hawliwyd amlaf mewn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Efallai y bydd un neu fwy o gategorïau difrod mewn un hawliad felly nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer yr hawliadau a dderbynnir fel yn Nhabl 1 (blaenorol).

Math o Hawliad a Dderbyniwyd	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25
Ymosod a churo	3	9	15	30	26	16
Torri'r Ddeddf Diogelu Data	2	6	6	4	6	2
Torri'r Ddeddf Hawliau Dynol	6	8	10	19	11	11
Embaras/Cywilyddio	0	0	1	2	1	0
Carcharu ar Gam	11	12	20	32	25	14
Colli enillion	2	0	5	0	3	1
Erlyniad Maleisus	1	3	4	3	4	0
Camweithrediad	0	3	3	0	2	1
Esgeulustod	11	6	6	8	6	5
Anaf personol	2	2	4	5	4	2
Difrod/atafaeliad Eiddo	19	14	7	5	8	2
Gwahaniaethu Hiliol	1	0	0	0	0	0
Athrod/Enllib/Difenwi	0	0	2	0	0	0
Tresmasu i Unigolyn	2	4	10	16	8	3
Tresmasu i Eiddo	2	6	1	14	7	5
Arestio Anghyfreithlon	6	6	14	16	12	3
Cyfanswm	**68**	**79**	**108**	**153**	**123**	**65**

Iawndal a roddwyd i hawlwyr rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2024





Costau a dalwyd i Gyfreithwyr Hawlwyr mewn perthynas â hawliadau sefydlog rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2024

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£0.00	£12,850.00

Costau cyfreithiol Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â hawliadau sifil sefydlog wedi'u cadarnhau rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2024

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£0.00	£0.00

Taliadau CRU a GIG

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£0.00	£0.00

Dadansoddiad o hawliadau a setlwyd rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2024

Categori	Hawliad	Niferoedd o hawliadau a setlwyd
Atebolrwydd Cyflogwyr	Anaf personol	0

Categori	Hawliad	Niferoedd o hawliadau a setlwyd
Atebolrwydd Cyhoeddus	Carcharu ar gam/arestio anghyfreithlon	2
Atebolrwydd Cyhoeddus	Colli/difrodi eiddo	3

CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU SIFIL A GAEWYD

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am nifer yr hawliadau sydd wedi'u 'cau' ers 2019. Mae'r tabl yn rhoi manylion hawliadau a setlwyd a lle na thalwyd setliad ynghyd â'r cyfanswm am bob blwyddyn.

1 Ebrill – 31 Mawrth	Hawliadau wedi eu cytuno arnynt	Ni thalwyd unrhyw setliadau	Cyfanswm ar gau
2019/2020	16	39	55
2020/2021	20	38	58
2021/2022	12	38	50
2022/2023	10	31	41
2023/2024	20	40	60
2024/2025	5	33	38

Fel y gwelwch, mae nifer yr hawliadau sy'n cael eu "gwrthbrofi" lle nad oes arian wedi'i dalu fel arfer yn fwy na'r rhai lle mae arian wedi'i dalu. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu safbwynt cadarn yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas ag amddiffyn hawliadau sifil yn gyffredinol.

Nifer yr Hawliadau Sifil ar gytundeb allanol

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Blwyddyn	Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd	Nifer yr Hawliadau sydd ar Gytundeb Allanol
2019/2020	7	0
2020/2021	6	2
2021/2022	2	0
2022/2023	4	0
2023/2024	8	4
2024/2025	1	0

Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Blwyddyn	Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd	Nifer yr Hawliadau sydd ar Gytundeb Allanol
2019/2020	41	1
2020/2021	43	2
2021/2022	44	6
022/2023	62	4
2023/2024	50	1
2024/2025	36	0

Materion Cyflogaeth

Manylion Hawliadau Cyflogaeth Fyw

Wedi derbyn	Manylion Hawliadau Byw
2024/25	1 x Gwahaniaethu ar sail anabledd, Cyflog Cyfartal a Chwythu Chwiban

Materion cytundebol a chynigion ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill - 30 Medi 2024

EITEMAU ER GWYBODAETH

1. **SELIO DOGFENNAU**

Mae'r dogfennau canlynol wedi cael eu selio ers y rhai hynny a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf dyddiedig 24 Mehefin 2024

Rhif Sêl	Natur y Ddogfen
338, 339, 340	Gweithred Gwarant Cyfochrog yr Is-gontractwr driphlyg parth Adnewyddu Gorsaf Heddlu Caernarfon rhwng (1) Fred Weston (Electrical) Contractor Ltd (2) CHTh Gogledd Cymru (3) T G Williams Builders Ltd
341, 342	Gweithred Amrywiad i'r Cytundeb Cydweithio parth Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu Cymru rhwng (1) Cyngor Sir Dinas Sir Caerdydd a (2) Arall sy'n cynnwys CHTh Gogledd Cymru

2. TRAFODION EIDDO

1.	19.4.24	Cyfnewid cytundebau gwerthu hen Orsaf Heddlu Bwcle yn amodol ar roi rhwyddineb rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru a (2) Kostadel Buckley Ltd
2	22.07.24	Gwerthu Gorsaf Heddlu Bwcle gan (1) CHTh Gogledd Cymru i (2) Kostadel Buckley Ltd
3	11.7.24	Trwydded i Feddiannu Uned 2 Llys Llen, Prestatyn LL19 9LH rhwng (1) Cyngor Sir Ddinbych (2) CHTh Gogledd Cymru

3. DOGFENNAU TENDRO

Mae'r Tendrau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTh neu Prif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

Rhif	Pwnc
217	Offer Mynediad Rhybudd wedi'i Osod ac ategolion ar gyfer cerbydau
218	Cyflenwi a Gosod Cypyrddau Clo
219	Gwasanaethau Cytiau Cŵn
220	Strategaeth Stadau Gogledd Cymru
221	Adeilad Newydd Gorsaf Heddlu Caergybi – Cam 2
222	Gwasanaeth a Chynnal a Chadw Arfaethedig Larymau Tân
223	Gwasanaethau Peirianneg Mecanyddol ar gyfer Gwaith Atgyweirio a Mân Waith Adweitheddol
224	Gwasanaethau Dadheintio
225	Adleoli Gorsaf Heddlu Prestatyn
226	Cyfleusterau Lles Gorsaf Heddlu Glannau Dyfrdwy
227	Gorsaf Heddlu Llandygai – Prosiect Giatiau Electronig Newydd
228	Gwaith Adnewyddu Toiledau Rhewl

229 Gwaith Atgyweirio a Mân Waith Adweitheddol Generadur

230 Gwaith Hygyrchedd Pencadlys yr Heddlu

231 Gwasanaeth a Chynnal a Chadw Arfaethedig Gwasanaethau Adeiladau Mecanyddol

4. CYTUNDEBAU Dros £10,000

Mae'r cytundebau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTh neu Brif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

Rhif	Dyddiad	Pwnc
1058	26.3.23	Cytundeb darparu gwasanaethau arwerthu
1069	26.3.24	Cytundeb ar gyfer dinistrio a chael gwared ar wasanaethau gwastraff wedi'u marcio'n amddiffynnol
846	26.3.24	Cytundeb Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr
1070	2.4.24	Cytundeb ar gyfer cyflenwi dillad ac offer carcharorion
1071	16.4.24	Cytundeb ar gyfer yswiriant eiddo sector cyhoeddus
1072	19.5.24	Cytundeb ar gyfer darparu batonau
1073	29.5.24	Cytundeb ar gyfer darparu cardiau tanwydd
1074	30.5.24	Cytundeb ar gyfer cyflenwi deunydd glanhau ac ystafell ymolchi porthor
837	5.6.24	Cytundeb Fframwaith Cymhwysedd Addysgol Plismona
1075	23.5.24	Torri cytundeb ar gyfer darparu dillad ac offer PSU
612	4.7.2024	Cytundeb Lefel Gwasanaeth – Cyflenwi a chyflawni Gwasanaethau Cytiau Cŵn
1078	25.6. 2024	Cytundeb gwasanaethau dadheintio
1079	27.6.2024	Cytundeb Gwasanaeth Larwm Tân a chynnal a chadw ar gyfer HGC a NWFRS
1080	1.7.2024	Cytundeb gosod goleuadau rhybudd – eitemau 1
1081	8.7.2024	Torri cytundeb ar gyfer darparu trowsusau
1083	27.3.2024	Cytundeb Cydweithredu Rhanbarthol y Gogledd Orllewin (Adran 22)
1085	12.7.2024	Contract ar gyfer cyflenwi, danfon a gosod cypyrddau clo

1080	17.7.2024	Cytundeb offer rhybuddio ac ategolion wedi'u gosod ar offer cerbydau – eitemau 4
1080	17.7.2024	Cytundeb offer rhybuddio wedi'u gosod ar offer cerbyd – eitemau 2 a 3
1086	22.7.2024	Cytundeb ar gyfer gwasanaethau peirianneg fecanyddol, atgyweiriadau adweithiol a mân waith
1087	25.7.2024	Torri cytundeb ar gyfer peiriant ffrancio ac offer postio
1088	15.8.2024	Cytundeb ar gyfer darparu ffenestri blaen, gwydr a gwydro ar gyfer y gwasanaethau brys
1089	20.8.2024	Torri cytundeb ar gyfer darparu datrysiadau telemateg cerbydau
1090	28.8.2024	Torri cytundeb ar gyfer trosi faniau Vauxhall i faniau sy'n cydymffurfio hefo'r Sefydliad Safoni Cenedlaethol
1091	28.8.2024	Cytundeb gwasanaethau ymgynghori ar gyfer ardrethi busnes ar eiddo yn Heddlu Gogledd Cymru ac ystad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
1092	22.8.2024	Cytundeb trwydded rheoli cronfeydd data
1093	2.9 2024	Cytundeb ymateb i strategaeth trais difrifol
1094	4.9.2024	Cytundeb talebau prawf llygaid
1085	18.9.2024	Cytundeb ar gyfer cyflenwi, danfon a gosod cypyrddau clo
1014	18.9.2024	Cytundeb System Meddalwedd Chronicle
1062	23.9.2024	Cytundeb lloriau ac atgyweirio

5. CYTUNDEBAU O dan £10,000

Mae'r cytundebau canlynol hefo gwerth o dan £10,000 y mae gan y CHTh neu Brif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

Rhif	Dyddiad	Pwnc
1047	3.7.2024	Gweithred Isgontractwyr Gwarant Cyfochrog i Gyflogwr parth adnewyddu Gorsaf Heddlu Caernarfon
1082	17.6.2024	Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwaredu Arfwisg Diwedd Oes

6. TENDRAU AR Y GWEILL

Mae'r caffaeliadau canlynol ar y gweill a chyda gwerth dros £20,000 y mae gan y CHTh neu'r Prif Gwnstabl ddiddordeb ynddynt:

Enw'r Gorchwyl	Statws	Cynnydd
Gwiriad Iechyd TG	Cystadleuaeth Fach	Ar y Gweill
Trefnu Cynnal a Chadw a Thrin Beiciau Modur drwy Gytundeb Allanol	RFQ	Ar y Gweill
Eitemau bach BLC	Tendr	Ar y Gweill
Arolwg Cyflwr Asedau	Dyfarniad Uniongyrchol	Heb Ddechrau
System Rheoli Gohebiaeth SCHTh	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
Cytundeb Crysau a Blowsys	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
System Rheoli Achosion CG	Cwmpasu	Ar y Gweill
Gwaith Hygyrchedd Pencadlys yr Heddlu	Cystadleuaeth Fach	Ar y Gweill
Target Turners	Cais am Ddyfynbris	Ar y Gweill
Amnewid rheolaethau CAMPUS Systemau Busnes BM	Cwmpasu	Ar y Gweill
Diweddariad Meddalwedd Chronical	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
System Rheoli Achosion yr Uned Iechyd Galwedigaethol	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
Llenni Tywyll ac Ategolion	Cwmpasu	Ar y Gweill
Difa Plâu	Cwmpasu	Ar y Gweill
Tendr Trowsus BLC	Tendr	Ar y Gweill
Gwasanaethau Arolwg Legionella	Cwmpasu	Ar y Gweill
Amnewid Cit Anadl	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
Gwasanaethau Meddalwedd NetMotion	Cwmpasu	Heb Ddechrau
Gwiriadau Credyd	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
Rheoli Arddangos Fforensig CSD (Locard)	Dyfarniad Uniongyrchol	Ar y Gweill
Trin, Cynnal a Chadw a Mân Waith Arfaethedig ar Eneraduron	Tendr	Ar y Gweill
BLC Dal dŵr	Tendr	Ar y Gweill

Meddalwedd Redaction	**Dyfarniad Uniongyrchol**	**Ar y Gweill**
Tendr Archwilio Mewnol (HDC)	**Tendr**	**Ar y Gweill**
Peirianneg Fecanyddol – Gwasanaeth a Chynnal a Chadw Arfaethedig	**Tendr**	**Ar y Gweill**
Prynu anadliedyddion	**Cais am Ddyfynbris**	**Ar y Gweill**
Atgyweirio Cyrff Cerbydau	**Tendr**	**Ar y Gweill**
Newid camerâu corff	**Dyfarniad Uniongyrchol**	**Heb Ddechrau**
Trwyddedau Microsoft (ESA)	**Cwmpasu**	**Heb Ddechrau**
Tendr IDVA	**Tendr**	**Ar y Gweill**
Datrysiad Camera Diogelwch yn y Swyddfa Gefn	**Dyfarniad Uniongyrchol**	**Ar y Gweill**
Tendr Adeiladu Gorsaf Heddlu Newydd Caergybi	**Tendr**	**Ar y Gweill**

7. CYNIGION WEDI'U SELIO

Dim

8. HEPGOR ARCHEBION SEFYDLOG

21.08.2024 **Hyfforddiant arwain ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant**

Dylid nodi bod yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau ar 5 Tachwedd 2024.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Y Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Rhagfyr 2024

Teitl:	Y Bwrdd Cyd Lywodraethu
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid, SCHTh
Diben yr Adroddiad:	Diweddariad
Lefel Sicrwydd	Amherthnasol Diben y Bwrdd Cyd Lywodraethu ydy casglu gwybodaeth ynglŷn â'r trefniadau sicrwydd ar draws y ddau sefydliad, yn hytrach nac i roi sicrwydd.
Mae'r adroddiad yn cael ei ddarparu i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	☐ Penderfyniad ☐ Trafodaeth ☐ Sicrwydd ☐ X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	• Ar 13 Tachwedd 2024, fe wnaeth y bwrdd: ○ Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol ar gyfer 2023/24, a nodi'r cynllun gweithredu ○ Derbyn dogfen friffio ynglŷn ag adolygiad o'r llywodraethu blynyddol ac effeithiolrwydd ○ Derbyn diweddariad ynglŷn â sicrwydd
Argymhellion:	• Nodi'r adroddiad • Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio fod yn ymwybodol efallai bydd angen mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu
Effaith ar Cofrestr Risgiau:	Mae'r ffordd mae risg yn cael ei reoli yn gyfannol ar gyfer llywodraethu effeithiol, ac mae'n cael ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu cyflawnwyd yn 2023/24. Fe wnaiff y trefniadau hyn newid o ganlyniad yr adolygiad sydd ar ddod. Fe fydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio unrhyw newidiadau i'r Llawlyfr Llywodraethu yn y dyfodol .
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cydbwyllgor Archwilio

4 Rhagfyr 2024

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

1. Cefndir

1.1. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn. Mae'r rhaglen waith wedi ei darparu er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'i amcanion er mwyn cofnodi trefniadau llywodraethu, a goruchwylio a chynghori ynglŷn â newidiadau i'r trefniadau hynny.

1.2. Mae gan aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio wahoddiad agored i fynychu'r cyfarfod.

2. Argymhellion

2.1. Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

2.2. Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn ymwybodol bod ganddynt wahoddiad agored i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, a bydd papurau'r cyfarfod a'r cofnodion yn cael eu rhoi iddynt ar gais. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein drwy Microsoft Teams, a dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod ydy:

- Dydd Iau 13 Chwefror 2025
- Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025
- Dydd Mawrth 16 Medi 2025
- Dydd Mercher 5 Tachwedd 2025

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

3.1. Yn y cyfarfod gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024, fe drafodwyd y canlynol:

3.2. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

- Fe gyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol ar gyfer 2023/24 i aelodau'r Bwrdd er eu gwybodaeth.
- Fe dynnwyd sylw at y Cynllun Gweithredu, sy'n ffurfio rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd cynnydd o ran y gweithrediadau hyn yn cael eu monitro gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn cynrychioli'r sefyllfa sefydliadol ar y dyddiad y cafodd ei arwyddo (31 Hydref 2024), ac felly caiff ei ystyried fel sylfaen briodol ar gyfer drafftiau cyntaf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ar gyfer 2025/26.

3.3. Adolygiad Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Llywodraethu Blynyddol

- Fe gyflwynodd y Cydlynydd Risg a Busnes Parhaus adroddiad i'r cyfarfod, oedd yn amlygu casgliadau ac argymhellion yr adolygiad llywodraethu diweddar.

- Ar y cyfan, roedd y newidiadau rhoddwyd ar waith llynedd eu derbyn ac yn eglur, a nododd y Cydlynydd Risg a Busnes Parhaus bod gwell dealltwriaeth o lywodraethu yn gyffredinol yn yr heddlu
- Nid ydy'r matrics gwneud penderfyniadau yn cael ei ddefnyddio'n unol â'r bwriad, ac mae pob penderfyniad yn cael ei gyfeirio at y Prif Swyddogion ar gyfer cymeradwyaeth. Mae angen gwneud gwell defnydd o'r matrics
- Roedd thema cyffredin bod agenda ar gyfer rhai cyfarfodydd yn hir. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu er mwyn penderfynu pa agenda sydd angen adolygiad, ac i'r Cydlynydd Risg a Busnes Parhaus drafod hyn gyda'r cadeiryddion priodol.
- Nodwyd wyth argymhelliad. Mae'r rhain yn atgyfnerthu yr hyn wnaeth ddod o'r adolygiad ddwfn gynhaliwyd yn 2023/24. Mae'r argymhellion hyn felly er mwyn atgoffa beth sydd ar gael ac o beth ddylai gael ei ddefnyddio.
- Nodwyd bod cyflawniad yn cael ei drafod ym Mwrdd Cyflawniad yr Heddlu ac yn y Bwrdd Uwch Reoli. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau na fyddai'n gyfforddus oni bai ei fod yn cael ei drafod yn y Bwrdd Uwch Reoli. Fodd bynnag, buasai'n well lleihau y lefel o fanylder sy'n cael ei gyflwyno i'r uwch-gyfarfod. Cytunodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes efo hyn, gan nodi bod y Bwrdd Uwch Reoli angen canolbwyntio ar faterion strategol, ond bod angen briffio'r Prif Gwnstabl yn llawn ynglŷn â'r darlun cyflawniad ehangach
- Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes bod yr arolygiad PEEL yn cydnabod faint o waith sydd wedi'i wneud er mwyn gwella unioni blaenoriaethau a chyfarfodydd. Fodd bynnag, mae gwaith dal o'i angen er mwyn llunio llywodraethu ar lefel tactegol / gweithredol.
- Trafodwyd ddefnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol. Mae offer cyfieithu a thanysgrifio ar gael ar MSTeams, fodd bynnag, nid ydyw eto'n ddigon da i'w ddefnyddio fel offer cyfieithu mewn cyfarfodydd. Fe gynhaliwyd cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg yn ddiweddar, ac 'roedd yn llwyddiant.
- Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau bod llywodraethu rhanbarthol a chenedlaethol yn gallu bod yn llai effeithiol neu effeithlon, ac y gallai hyn effeithio ar Heddlu Gogledd Cymru, ond ni allwn reoli hyn, ac mae felly y tu hwnt i'n gallu i'w adolygu.

3.4. Mae argymhellion y Cydbwyllgor Archwilio ar y gweill.

3.5. Derbyniwyd yr adroddiad Diweddariad Sicrwydd.

- Gofynnodd y Prif Swyddog Cyllid os oes gan berchenogion polisi ddyddiad targed ar gyfer cwblhau gwaith ac i adolygu a diweddaru polisïau. Dywedwyd bod dyddiadau'n benagored, er bod y Cydlynydd Risg a Busnes Parhaus yn annog perchenogion polisi i gytuno ffrâm amser rhesymol er mwyn cwblhau eu gwaith, gan ystyried bod angen gwneud hyn ynghyd â'u gwaith arferol. Datganwyd os bydd ymgynghoriad yn cau mwy na thair mis cyn i bolisi a'i hadolygwyd gael ei gyhoeddi, yna mae'n rhaid ail-wneud yr ymgynghoriad. Mae'r gofyniad hwn yn golygu bod y rhai sy'n diweddaru polisïau efo'r anogaeth i'w cwblhau mewn modd amserol.
- Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes bod pob polisi yn aros mewn grym tan neu heblaw eu bod yn cael eu disodli, hyd yn oed os ydy'r dyddiad adolygu wedi mynd heibio.

4. Fe fydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn cael mynediad i bapurau, gan gynnwys y cofnodion a'r gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r G-drive. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Iau, 13 Chwefror 2025.

5. GOBLYGIADAU

5.1	Cydraddoldeb	Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a osodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
5.2	Cyllidol	Mae'r ffordd mae cyllid yn cael ei reoli yn hanfodol ar gyfer llywodraethu effeithiol. Mae'r polisïau ariannol, monitro systemau cyllidol a chyflawniad yn cael ystyriaeth o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
5.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol bod Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cael eu cyhoeddi, ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon pob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu ydy cofnodi gweithgareddau llywodraethu'r ddau corfforaeth undyn (er mwyn sicrhau ymdrin ag unrhyw bryderon), er mwyn paratoi'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol mewn ffordd cywir ac amserol.
5.4	Gwerth Cymunedol a Chymdeithasol	Mae polisïau amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) yn cael eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
5.5	Risg	Mae'r ffordd mae risg yn cael ei reoli yn hanfodol ar gyfer llywodraethu effeithiol, ac yn cael ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
5.6	Y Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn hanfodol i'r ddau corfforaeth undyn. Mae'r modd y mae hyn yn cael ei fonitro yn cael ystyriaeth o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad
Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd